# Datganiad Polisi Trwyddedu Cyngor Sir Penfro

**2026**

# Deddf Gamblo 2005

**Gellir cael rhagor o wybodaeth gan: Yr Adran Drwyddedu**
**Adran Diogelu'r Cyhoedd**
**Neuadd y Sir Hwlfforddd**
**Sir Benfro**
**SA61 1TP**

**Rhif ffôn: 01437 764551**
**E-bost: licensing@pembrokeshire.gov.uk**
**Gwefan: www.sir-benfro.gov.uk**

**Mae'r polisi hwn hefyd ar gael yn Saesneg neu mewn print bras ar gais i'r adran drwyddedu.**

# DATGANIAD POLISI GAMBLO
# Deddf Gamblo 2005

## Cynnwys


| Rhif yr adran | Eitem | Tudalen |
|---|---|---|
| | | |
| **Rhan A** | **Datganiad Polisi Gamblo** | 3 |
| | | |
| 1 | Yr amcanion trwyddedu | 3 |
| 2 | Cyflwyniad | 4 |
| 3 | Datganiad | 7 |
| 4 | Awdurdodau cyfrifol | 8 |
| 5 | Partïon â diddordeb | 9 |
| 6 | Cyfnewid gwybodaeth | 10 |
| 7 | Gorfodi | 11 |
| 8 | Swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu | 12 |
| | | |
| | | |
| | | |
| **Rhan B** | **Trwyddedau mangreoedd** | 13 |
| | | |
| 9 | Egwyddorion cyffredinol | 13 |
| 10 | Canolfannau hapchwarae i oedolion | 22 |
| 11 | Canolfannau adloniant i deuluoedd (trwyddedig) | 23 |
| 12 | Casinos | 24 |
| 13 | Safleoedd bingo | 25 |
| 14 | Safleoedd betio | 26 |
| 15 | Traciau | 27 |
| 16 | Ffeiriau teithiol | 29 |
| 17 | Datganiadau dros dro | 30 |
| 18 | Adolygiadau | 31 |
| 19 | Asesiadau risg | 33 |
| | | |
| **Rhan C** | **Trwyddedau / Hysbysiadau defnydd dros dro ac achlysurol** | 35 |
| | | |
| 20 | Trwyddedau peiriannau hapchwarae ar gyfer canolfannau adloniant didrwydded i deuluoedd | 35 |
| 21 | Trwyddedau peiriannau hapchwarae ar gyfer safleoedd trwyddedig (alcohol) | 37 |
| 22 | Trwyddedau hapchwarae am wobr | 39 |
| 23 | Trwyddedau hapchwarae mewn clwb ac ar gyfer peiriannau clwb | 40 |
| 24 | Hysbysiadau defnydd dros dro | 42 |
| 25 | Hysbysiadau defnydd achlysurol | 43 |
| 26 | Loterïau cymdeithasau bach | 44 |
| | | |
| **Atodiad** | | |
| | | |
| Atodiad A | Dirprwyo swyddogaethau | 45 |
| Atodiad B | Manylion cyswllt | 47 |
| Atodiad C | Map o Sir Benfro | 49 |

# RHAN A
# Datganiad Polisi Gamblo

## 1. Yr amcanion trwyddedu

1.1 Wrth arfer y rhan fwyaf o'u swyddogaethau o dan Ddeddf Gamblo 2005, rhaid i awdurdodau trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu fel y'u nodir yn adran 1 o'r ddeddf. Dyma'r amcanion trwyddedu:

- **Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i ategu trosedd**
- **Sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored**
- **Gwarchod plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu camfanteisio gan gamblo**

1.2 Dylid nodi bod y Comisiwn Hapchwarae wedi datgan: "Mae'r gofyniad mewn perthynas â phlant yn benodol i'w gwarchod rhag cael eu niweidio neu eu camfanteisio gan gamblo".

1.3 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol, yn unol ag adran 153, wrth wneud penderfyniadau ynghylch trwyddedau mangreoedd a hysbysiadau defnydd dros dro, y dylai anelu at ganiatáu defnyddio safle ar gyfer gamblo i'r graddau y mae'n credu ei fod:

- **yn cydymffurfio ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae**
- **yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae**
- **yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu**
- **yn cydymffurfio â datganiad polisi gamblo'r awdurdod**

## 2. Cyflwyniad

2.1 Mae gan Sir Benfro boblogaeth o ryw 125,000 ac mae'n wledig ei chymeriad yn bennaf. Mae'r chwe phrif dref – Abergwaun, Hwlffordd, Aberdaugleddau, Dinbych-y-pysgod, Penfro a Doc Penfro – wedi'u hamgylchynu gan nifer o drefi a phentrefi llai, ac mae gan bob un ei chymeriad unigol ei hun. Mae cynllun o'r sir yn dangos wardiau unigol wedi'i atodi fel Atodiad C.

2.2 Mae gan Sir Benfro grynodiadau sylweddol o gyflogaeth yn y meysydd canlynol: llety a gwasanaeth bwyd; y celfyddydau, adloniant a hamdden; adeiladu; a diwydiannau cloddiol.

2.3 Mae economi Sir Benfro bellach yn dibynnu'n fawr ar dwristiaeth, ac mae gan y diwydiant twristiaeth effaith sylweddol ar y boblogaeth ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae nifer sylweddol o bobl yn gweithio mewn llety, safleoedd carafanau gwyliau a gwersylla, atyniadau twristaidd, bwytai a chaffis, clybiau, tafarndai a bariau.

**Ffigur 1: Ardal Cyngor Sir Penfro**




2.4 Mae 13 safle gamblo yn y sir, sy'n cynnwys wyth safle betio a phedair canolfan hapchwarae i oedolion, un safleoedd bingo. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ganolfannau adloniant i deuluoedd, trwyddedau betio ar draciau

2.5 Mae Deddf Gamblo 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu gyhoeddi datganiad o'r egwyddorion y maent yn bwriadu eu cymhwyso wrth arfer eu swyddogaethau. Rhaid cyhoeddi'r datganiad hwn o leiaf bob tair blynedd. Rhaid adolygu'r datganiad o bryd i'w gilydd hefyd, ac ymgynghori eto ar unrhyw rannau diwygiedig. Rhaid ailgyhoeddi'r datganiad wedyn. Datganiad egwyddorion Cyngor Sir Penfro yn unol â'r ddeddf yw'r ddogfen hon.

2.6 Lluniwyd y polisi hwn o ganlyniad i ymarfer ymgynghori a oedd yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

a) Yr heddlu
b) Y Comisiwn Hapchwarae
c) Awdurdodau cyfrifol eraill
d) Deiliaid trwyddedau a'u cynrychiolwyr
e) Deiliaid caniatadau a'u cynrychiolwyr
f) Busnesau gamblo lleol a'u cynrychiolwyr
g) Trigolion lleol a'u cynrychiolwyr

Rhoddwyd ystyriaeth ddyledus i bawb sydd wedi ymateb.

2.7 Dylid nodi na fydd y datganiad polisi hwn yn diystyru hawl unrhyw unigolyn i wneud cais, gwneud sylwadau ynghylch cais, neu wneud cais am adolygiad o drwydded, gan y bydd pob un yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun ac yn unol â gofynion statudol Deddf Gamblo 2005.

2.8 Nodir bod angen i geiswyr am drwyddedau mangreoedd gael trwyddedau gweithredu gan y Comisiwn Hapchwarae, a bod ganddynt gyfrifoldebau i'r comisiwn o ganlyniad.



54

## 3. Datganiad

3.1 Wrth gynhyrchu'r ddogfen bolisi hon, mae Cyngor Sir Penfro yn datgan ei fod wedi rhoi sylw i amcanion trwyddedu Deddf Gamblo 2005 a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae.

3.2 **Rhestr termau**

O fewn y datganiad polisi hwn, diffinnir y geiriau a'r termau canlynol fel y'u nodir:

| | |
|---|---|
| Amcanion trwyddedu: | Fel y'u diffinnir yn adran 1.1 uchod |
| Cyngor: | Cyngor Sir Penfro (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y cyngor") |
| Sir: | Yr ardal o Sir Benfro a weinyddir gan Gyngor Sir Penfro y cyfeirir ati yn y map sydd ynghlwm (gweler Atodiad C) |
| Trwyddedau: | Fel y'u diffinnir yn Rhan B |
| Ceisiadau: | Ceisiadau am drwyddedau a chaniatadau fel y'u diffinnir yn Rhannau B ac C |
| Awdurdod trwyddedu: | Awdurdod trwyddedu o fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Gamblo 2005 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "yr awdurdod") |
| Hysbysiadau: | Hysbysiad o ddefnydd dros dro ac achlysurol |
| Y ddeddf: | Deddf Gamblo 2005 |
| Rheoliadau: | Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Gamblo 2005 |
| Safleoedd: | Unrhyw le |
| Cod ymarfer: | Unrhyw god ymarfer perthnasol o dan adran 24 o Ddeddf Gamblo 2005 |
| Amod gorfodol: | Amod penodedig a ddarperir gan reoliadau i'w atodi i drwydded |
| Amod diofyn: | Amod penodol a ddarperir gan reoliadau i'w atodi i drwydded, oni bai ei fod wedi'i eithrio gan Gyngor Sir Penfro. |



55

## 4. Awdurdodau cyfrifol

Dyma'r awdurdodau cyfrifol mewn perthynas â thrwyddedau mangreoedd o dan y ddeddf:

1. Yr awdurdod trwyddedu y mae'r safle wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn ei ardal ("Cyngor Sir Benfro")
2. Y Comisiwn Hapchwarae
3. Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys
4. Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
5. Pennaeth Cynllunio, Cyngor Sir Penfro neu Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
6. Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Sir Penfro
7. Y Tîm Diogelu, Cyngor Sir Penfro
8. Cyllid a Thollau EF
9. Mewn perthynas â llong – yr Awdurdod Mordwyo, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain a'r Ysgrifennydd Gwladol
10. Unrhyw unigolyn arall a nodir mewn rheoliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol

4.1 Mae'n ofynnol i'r awdurdod trwyddedu, yn ôl rheoliadau, ddatgan yr egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth arfer ei bwerau o dan adran 157(h) o'r ddeddf, ac i ddynodi yn ysgrifenedig corff sy'n gymwys i gynghori'r awdurdod ynghylch gwarchod plant rhag niwed.

4.2 Yr egwyddorion yw:

a) yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sy'n cwmpasu ardal gyfan yr awdurdod trwyddedu; a
b) yr angen i'r corff fod yn atebol i unigolion a etholwyd yn ddemocrataidd, yn hytrach nag unrhyw grŵp buddiant penodol.

4.3 Am y rhesymau hyn, mae'r awdurdod hwn yn dynodi'r Tîm Diogelu, Cyngor Sir Penfro at y diben hwn.

4.4 Mae manylion cyswllt yr holl awdurdodau cyfrifol o dan Ddeddf Gamblo 2005 wedi'u cynnwys yn Atodiad B i'r ddogfen bolisi hon, ac maent hefyd ar gael drwy wefan y cyngor yn: **www.sir-benfro.gov.uk**.

## 5. Partïon â diddordeb

5.1 Gall partïon â diddordeb wneud sylwadau ynghylch ceisiadau am drwydded, neu wneud cais am adolygiad o drwydded bresennol. Diffinnir y partïon hyn yn Neddf Hapchwarae 2005 fel a ganlyn:

"At ddibenion y Rhan hon, mae unigolyn yn barti â diddordeb mewn perthynas â chais am drwydded mangre neu mewn perthynas â hi os ydyw'r unigolyn, ym marn yr awdurdod trwyddedu sy'n cyhoeddi'r drwydded neu y gwneir y ceisiadau iddo:
a) yn byw yn ddigon agos at y safle i fod yn debygol o fod dan effaith gweithgareddau awdurdodedig,
b) â buddiannau busnes a allai fod dan effaith y gweithgareddau awdurdodedig, neu
c) yn cynrychioli unigolion sy'n bodloni paragraff (a) neu (b)".

5.2 Mae'n ofynnol i'r awdurdod trwyddedu, yn ôl rheoliadau, ddatgan yr egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth arfer ei bwerau o dan Ddeddf Gamblo 2005 i benderfynu a ydyw unigolyn yn barti â diddordeb. Mae'r egwyddorion fel a ganlyn:

- Bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau. Ni fydd yr awdurdod hwn yn cymhwyso rheol anhyblyg i'w broses gwneud penderfyniadau. Bydd yn ystyried yr enghreifftiau o ystyriaethau a ddarperir yng nghanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol yn rhifau 8.9 ac 8.17. Bydd hefyd yn ystyried canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae y dylid rhoi'r dehongliad ehangaf posibl i "â buddiannau busnes", a chynnwys partneriaethau, elusennau, grwpiau ffydd ac arferion meddygol.

- Gall partïon â diddordeb fod yn bobl sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd, fel cynghorwyr ac Aelodau Seneddol. Ni fydd angen unrhyw dystiolaeth benodol o gael eich gofyn i gynrychioli unigolyn â diddordeb cyn belled â bod y cynghorydd / Aelod Seneddol yn cynrychioli'r ward sy'n debygol o fod dan effaith hyn. Yn yr un modd, bydd cynghorau cymuned sy'n debygol o fod dan effaith hyn yn cael eu hystyried yn bartïon â diddordeb. Fodd bynnag, ar wahân i'r rhain, bydd yr awdurdod hwn fel arfer yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig bod unigolyn neu gorff (e.e. eiriolwr / perthynas) yn 'cynrychioli' rhywun sydd naill ai'n byw'n ddigon agos at y safle i fod yn debygol o fod dan effaith y gweithgareddau awdurdodedig ac / neu â buddiannau busnes y gellir effeithio arnynt gan y gweithgareddau awdurdodedig. Mae llythyr gan un o'r bobl hyn, yn gofyn am y gynrychiolaeth, yn ddigonol.

- Os yw unigolion yn dymuno cysylltu â chynghorwyr i ofyn iddynt gynrychioli eu barn, dylid bod yn ofalus nad yw'r cynghorwyr yn rhan o'r pwyllgor trwyddedu sy'n ymdrin â'r cais am drwydded. Os oes gennych unrhyw amheuon, cysylltwch â'r Tîm Trwyddedu, Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd SA61 1TP.

5.3 Dylai unrhyw gynghorwyr cymunedol neu sirol y cysylltir â nhw i gynrychioli pobl sydd â diddordeb sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad a cheisio eithriad gan y Pwyllgor Safonau os yw'n briodol.

## 6. Cyfnewid gwybodaeth

6.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu gynnwys yn eu datganiadau yr egwyddorion i'w cymhwyso gan yr awdurdod wrth arfer y swyddogaethau o dan adrannau 29 a 30 o'r ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r Comisiwn Hapchwarae, a'r swyddogaethau o dan adran 350 o'r ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r unigolion eraill a restrir yn Atodlen 6 o'r ddeddf.

6.2 Yr egwyddor y mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ei chymhwyso yw y bydd yn gweithredu yn unol â darpariaethau Deddf Gamblo 2005 wrth gyfnewid gwybodaeth, sy'n cynnwys y ddarpariaeth na fydd Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016 a Deddf Diogelu Data 2018 yn cael eu torri. Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae i awdurdodau lleol ar y mater hwn pan gânt eu cyhoeddi, yn ogystal ag unrhyw reoliadau perthnasol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y pwerau a ddarperir yn Neddf Hapchwarae 2005.

6.3 Os bydd unrhyw brotocolau yn cael eu sefydlu o ran cyfnewid gwybodaeth â chyrff eraill, byddant ar gael.

## 7. Gorfodi

7.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu, yn ôl rheoliad o dan Ddeddf Gamblo 2005, ddatgan yr egwyddorion y dylai'r awdurdod eu cymhwyso wrth arfer y swyddogaethau o dan Ran 15 o'r ddeddf mewn perthynas ag archwilio safleoedd; a'r pwerau o dan adran 346 o'r ddeddf i gychwyn achos troseddol mewn perthynas â'r troseddau a bennir.

7.2 Egwyddorion yr awdurdod trwyddedu hwn yw y bydd yn cael ei arwain gan ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol, a bydd yn ymdrechu i fod fel a ganlyn:

- Yn gymesur: dim ond pan fo angen y dylai rheoleiddwyr ymyrryd: dylai'r rhwymedïau fod yn briodol i'r risg a achosir, a dylai costau gael eu nodi a'u lleihau
- Yn atebol: rhaid i reoleiddwyr allu cyfiawnhau penderfyniadau, a bod yn destun craffu cyhoeddus
- Yn gyson: rhaid cysylltu rheolau a safonau a'u gweithredu'n deg
- Yn dryloyw: dylai rheoleiddwyr fod yn agored, a chadw rheoliadau'n syml ac yn hawdd eu defnyddio, ac
- Wedi'i dargedu: dylai rheoleiddio ganolbwyntio ar y broblem, a lleihau sgil-effeithiau

7.3 Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ymdrechu i osgoi dyblygu â chyfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag y bo modd.

7.4 Prif rôl gorfodi a chydymffurfio'r awdurdod trwyddedu hwn o ran Deddf Gamblo 2005 fydd sicrhau cydymffurfedd â'r trwyddedau mangreoedd a chaniatadau eraill y mae'n eu hawdurdodi. Y Comisiwn Hapchwarae fydd y corff gorfodi ar gyfer y trwyddedau gweithredu a phersonol. Mae hefyd yn werth nodi na fydd yr awdurdod trwyddedu yn ymdrin â phryderon ynghylch cynhyrchu, cyflenwi neu atgyweirio peiriannau hapchwarae, ond y byddant yn cael eu hysbysu i'r Comisiwn Hapchwarae.

7.5 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn cadw ei hun yn wybodus am ddatblygiadau o ran gwaith y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio wrth iddi ystyried swyddogaethau rheoleiddio awdurdodau lleol.

7.6 Gan gadw egwyddor tryloywder mewn cof, bydd protocolau / cytundebau ysgrifenedig gorfodi / cydymffurfio'r awdurdod trwyddedu hwn ar gael ar gais i'r Tîm Trwyddedu, Diogelu'r Cyhoedd, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlffordd SA61 1TP.

## 8. Swyddogaethau'r awdurdod trwyddedu

8.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu o dan y ddeddf:

- fod yn gyfrifol am drwyddedu mangreoedd lle mae gweithgareddau gamblo i ddigwydd trwy gyhoeddi trwyddedau mangreoedd; ar gyfer safleoedd bingo, safleoedd betio, traciau, canolfannau hapchwarae i oedolion a chanolfannau adloniant i deuluoedd
- cyhoeddi datganiadau dros dro
- rheoleiddio clybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr sy'n dymuno ymgymryd â rhai gweithgareddau hapchwarae trwy gyhoeddi trwyddedau hapchwarae mewn clwb a/neu drwyddedau peiriannau clwb
- rhoi trwyddedau peiriannau clwb i glybiau masnachol
- rhoi trwyddedau ar gyfer defnyddio peiriannau hapchwarae penodol â chyfran is mewn canolfannau adloniant didrwydded i deuluoedd
- cael hysbysiadau gan safleoedd trwyddedig i werthu alcohol (o dan Ddeddf Trwyddedu 2003) ar gyfer defnyddio dau beiriant hapchwarae neu lai
- rhoi trwyddedau peiriannau hapchwarae ar gyfer safleoedd trwyddedig sydd wedi'u trwyddedu i werthu / cyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle trwyddedig, o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, lle mae mwy na dau beiriant
- cofrestru loterïau cymdeithasau bach islaw'r trothwyon penodedig
- rhoi trwyddedau hapchwarae am wobr
- cael a chymeradwyo hysbysiadau defnydd dros dro
- cael hysbysiadau defnydd achlysurol
- darparu gwybodaeth i'r Comisiwn Hapchwarae ynghylch manylion trwyddedau a gyhoeddwyd (gweler yr adran uchod ar 'gyfnewid gwybodaeth')
- cynnal cofrestrau o'r trwyddedau a'r caniatadau a gyhoeddir o dan y swyddogaethau hyn

8.2 Dylid nodi na fydd awdurdodau trwyddedu lleol yn ymwneud â thrwyddedu gamblo o bell o gwbl. Cyfrifoldeb y Comisiwn Hapchwarae fydd hyn drwy drwyddedau gweithredu.

# RHAN B
# TRWYDDEDAU MANGREOEDD – YSTYRIED CEISIADAU

## 9. Egwyddorion cyffredinol

9.1 Bydd trwyddedau mangreoedd yn ddarostyngedig i'r gofynion a nodir yn Neddf Gamblo 2005 a'r rheoliadau, yn ogystal ag amodau gorfodol a diofyn penodol a fydd yn cael eu manylu mewn rheoliadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae awdurdodau trwyddedu yn gallu eithrio amodau diofyn, a hefyd atodi eraill lle credir bod hynny'n briodol.

9.2 Bydd gofyn i bob ceisydd am drwydded mangre nodi sut y byddant yn ystyried yr amcanion trwyddedu, fel y nodir yn adran 1.1 uchod, a pha fesurau y maent yn bwriadu eu defnyddio i sicrhau cydymffurfedd â nhw.

9.3 **Gwneud penderfyniadau**
Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol, wrth wneud penderfyniadau ynghylch trwyddedau mangreoedd, y dylai anelu at ganiatáu defnyddio safle ar gyfer gamblo i'r graddau y mae'n credu ei fod:

- yn cydymffurfio ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae
- yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae
- yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu, ac
- yn cydymffurfio â datganiad polisi trwyddedu'r awdurdod

9.4 Sylweddolir, yn ôl canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol, nad yw "gwrthwynebiadau moesol i hapchwarae yn rheswm dilys dros wrthod ceisiadau am drwyddedau mangreoedd", a hefyd nad yw galw heb ei fodloni yn faen prawf ar gyfer awdurdod trwyddedu.

Mae'r awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn nodi canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar sicrhau mai betio yw prif weithgaredd safle trwyddedig. Dim ond ar adegau pan fo digon o gyfleusterau ar gael ar gyfer betio y caniateir defnyddio peiriannau hapchwarae mewn safleoedd betio trwyddedig. Bydd angen i weithredwyr ddangos y bydd betio yn parhau i fod yn brif weithgaredd y safle wrth geisio am newidiadau i drwyddedau.

Wrth wneud y penderfyniad hwn, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried y chwe dangosydd o fetio fel prif weithgaredd gamblo:

- Cynnig cynhyrchion craidd sefydledig (gan gynnwys lluniau digwyddiadau byw ac ystod betiau)
- Darparu gwybodaeth am gynhyrchion a digwyddiadau
- Hyrwyddo cyfleoedd a chynhyrchion gamblo
- Y defnydd gwirioneddol a wneir o gyfleusterau betio
- Maint y safle
- Sut y cyflwynir y cyfleusterau betio

9.5 **Diffiniad o "safle"** – Yn y ddeddf, diffinnir "safle" fel un sy'n cynnwys "unrhyw le". Felly, mae adran 152 yn atal mwy nag un drwydded mangre rhag bod yn berthnasol i unrhyw le. Ond gallai un adeilad fod yn destun mwy nag un drwydded mangre, ar yr amod eu bod ar gyfer gwahanol rannau o'r adeilad, a bod modd ystyried yn rhesymol bod y gwahanol rannau o'r adeilad yn safleoedd gwahanol. Mae'r dull hwn wedi'i fabwysiadu i

ganiatáu i safleoedd mawr, aml-uned, fel parciau pleser, pierau, traciau neu ganolfannau siopa gael trwyddedau mangreoedd ar wahân, lle mae mesurau diogelwch priodol ar waith. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi sylw arbennig os oes problemau ynghylch israniadau un adeilad neu blot, a dylem sicrhau y cedwir at amodau gorfodol sy'n ymwneud â mynediad rhwng safleoedd.

9.6 Mae'r Comisiwn Hapchwarae yn datgan yn adran 7.6 o bumed argraffiad y Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu: "Yn y rhan fwyaf o achosion, y disgwyliad yw y bydd un adeilad / plot yn destun cais am drwydded, er enghraifft, 32 Stryd Fawr. Ond, nid yw hynny'n golygu na all 32 Stryd Fawr fod yn destun trwyddedau mangreoedd ar wahân ar gyfer yr islawr a'r llawr gwaelod, os cânt eu ffurfweddu'n dderbyniol. Bydd penderfynu a ellir ystyried gwahanol rannau o adeilad yn briodol fel safleoedd ar wahân ai peidio yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Bydd lleoliad y safle yn amlwg yn ystyriaeth bwysig, ac mae'n debygol y bydd addasrwydd y rhaniad yn destun trafodaeth rhwng y gweithredwr a'r awdurdod trwyddedu. Adran 7.7 Nid yw'r comisiwn yn ystyried y gellir ystyried yn briodol fod ardaloedd o adeilad sydd wedi'u gwahanu'n artiffisial neu dros dro, er enghraifft gan raffau neu raniadau symudol, yn safleoedd gwahanol. Os yw safle wedi'i leoli o fewn lleoliad ehangach, dylai awdurdod trwyddedu ofyn am gynllun o'r lleoliad lle dylid nodi'r safle fel uned ar wahân."

9.7 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn rhoi sylw penodol i'r Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae, sy'n nodi y dylai awdurdodau trwyddedu gymryd gofal arbennig wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau aml-ddefnydd ar gyfer adeilad a'r rhai sy'n ymwneud â rhan ar wahân o adeilad a ddefnyddir at ddibenion eraill (heblaw hapchwarae). Yn benodol, dylent fod yn ymwybodol o'r canlynol:

- Mae'r trydydd amcan trwyddedu yn ceisio gwarchod plant rhag cael eu niweidio gan gamblo. Yn ymarferol mae hynny'n golygu nid yn unig eu hatal rhag cymryd rhan mewn gamblo, ond hefyd eu hatal rhag bod yn gorfforol agos at gamblo. Felly, dylid ffurfweddu safleoedd fel nad yw plant yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn gamblo, yn cael mynediad damweiniol ato, nac yn ei wylio'n agos lle maent wedi'u gwahardd rhag cymryd rhan.
- Dylai mynedfeydd ac allanfeydd o rannau o adeilad sydd wedi'u cynnwys o dan un neu ragor o drwyddedau mangreoedd fod ar wahân ac yn adnabyddadwy fel nad yw gwahanu gwahanol safleoedd yn cael ei beryglu ac nad yw pobl yn raddol symud i mewn i ardal gamblo. Yn y cyd-destun hwn, dylai fod yn bosibl fel arfer cael mynediad i'r safle heb fynd trwy safle trwyddedig arall neu safle sydd â thrwydded.
- Dylai cwsmeriaid allu cymryd rhan yn y gweithgaredd a enwir ar y drwydded mangre.

9.8 Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys rhestr o ffactorau y dylai'r awdurdod trwyddedu fod yn ymwybodol ohonynt, a all gynnwys y canlynol:

- A oes gan yr adeilad gofrestriad ar wahân ar gyfer trethi busnes?
- A ydyw eiddo cyfagos y safle yn eiddo i'r un unigolyn neu rywun arall?
- A ellir cyrraedd pob un o'r safleoedd o'r stryd neu drwy lwybr cyhoeddus?
- Ai dim ond o unrhyw safle gamblo arall y gellir cael mynediad i'r safle?

Bydd yr awdurdod hwn yn ystyried y ffactorau hyn a ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.

9.9 **Atgynhyrchir darpariaethau mynediad perthnasol y Comisiwn Hapchwarae ar gyfer pob math o safle isod:**

7.23:

**Casinos**

- Rhaid i brif fynedfa'r safle fod o stryd (fel y'i diffinnir ym mharagraff 7.21 y canllawiau)
- Ni ddylai mynediad i gasino fod o safle a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc
- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o unrhyw safle arall sydd â thrwydded mangre gamblo

**Canolfan hapchwarae i oedolion**

- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle'n uniongyrchol o unrhyw safle gamblo trwyddedig arall

**Siopau betio**

- Rhaid i fynediad fod o stryd (yn unol â pharagraff 7.20 Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu) neu o safle arall sydd â thrwydded mangre betio
- Dim mynediad uniongyrchol o siop fetio i safle arall a ddefnyddir ar gyfer manwerthu nwyddau neu wasanaethau;mewn gwirionedd, ni chaniateir mynediad i siop fetio o siop o unrhyw fath oni bai bod y siop honno ei hun yn safle betio trwyddedig

**Traciau**

- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle'n uniongyrchol o'r canlynol:
  - Casino
  - Canolfan hapchwarae i oedolion

**Safle bingo**

- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle'n uniongyrchol o'r canlynol:
  - Casino
  - Canolfan hapchwarae i oedolion
  - Safle betio, heblaw trac

**Canolfan adloniant i deuluoedd**

- Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle'n uniongyrchol o'r canlynol:
  - Casino
  - Canolfan hapchwarae i oedolion
  - Safle betio, heblaw trac

Mae Rhan 7 o'r Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae yn cynnwys canllawiau pellach ar y mater hwn, y bydd yr awdurdod hwn hefyd yn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau.

9.10 **Safleoedd "yn barod ar gyfer gamblo"**

Mae'r canllawiau'n nodi mai dim ond mewn perthynas â safle y gall yr awdurdod trwyddedu fod yn fodlon y bydd yn barod i'w ddefnyddio ar gyfer gamblo yn y dyfodol agos, yn gyson â graddfa'r adeilad neu'r newidiadau sy'n ofynnol cyn i'r safle gael ei ddefnyddio, y dylid rhoi trwydded i ddefnyddio'r safle.

9.11 Os nad yw gwaith adeiladu'r safle wedi'i gwblhau eto, os oes angen ei newid, neu os nad oes gan y ceisydd hawl i'w feddiannu eto, dylid gwneud cais am ddatganiad dros dro yn lle hynny.

9.12 Wrth benderfynu a ellir rhoi trwydded safle lle mae gwaith adeiladu neu addasu heb ei wneud ar safle, bydd yr awdurdod hwn yn penderfynu ar geisiadau yn ôl eu rhinweddau, gan gymhwyso proses ystyried dau gam:

- Yn gyntaf, a ddylid caniatáu i'r safle gael ei ddefnyddio ar gyfer gamblo

- Yn ail, a ellir rhoi amodau priodol ar waith i ddarparu ar gyfer y sefyllfa lle nad yw'r safle eto yn y cyflwr y dylai fod ynddo cyn i gamblo ddigwydd.

9.13 Dylai ceiswyr nodi bod gan yr awdurdod hwn hawl i benderfynu ei bod yn briodol rhoi trwydded yn ddarostyngedig i amodau, ond nid oes rhaid iddo roi trwydded o'r fath.

9.14 Gellir gweld enghreifftiau mwy manwl o'r amgylchiadau lle gellir rhoi trwydded o'r fath ym mharagraffau 7.58–7.65 o'r canllawiau.

9.15 **Lleoliad –** Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol na ellir ystyried materion galw o ran lleoliad safleoedd ond y gellir ystyried ystyriaethau o ran yr amcanion trwyddedu. Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol, bydd yr awdurdod hwn yn rhoi sylw arbennig i warchod plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu fod yn agored i gamfanteisio gan hapchwarae, yn ogystal â materion troseddu ac anhrefn. Nid yw hyn yn atal unrhyw geisiadau rhag cael eu gwneud, a bydd pob cais yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau.

9.16 Wrth benderfynu ar gais i roi trwydded mangre neu adolygu trwydded mangre, rhoddir ystyriaeth i agosrwydd y safle i ysgolion, canolfannau ieuenctid, canolfannau oedolion agored i niwed, neu ardaloedd preswyl lle mae cysylltiad tystiolaethol rhwng agosrwydd y safle hwnnw a'r safle gamblo. Bydd agosrwydd y safleoedd a fydd yn cael ei ystyried yn amrywio yn ôl maint a chwmpas y safle gamblo dan sylw. Fodd bynnag, bydd pob achos yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau, a bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o gamblo y bwriedir ei gynnig ar y safle. Felly, os gall ceisydd ddangos yn effeithiol sut y gallai oresgyn pryderon ynghylch amcanion trwyddedu, bydd hyn yn cael ei ystyried.

9.17 **Dyblygu â chyfundrefnau rheoleiddio eraill**

Wrth benderfynu ar gais, ni fydd yr awdurdod yn ystyried materion nad ydynt yn berthnasol o dan y ddeddf, megis y tebygolrwydd y bydd y ceisydd yn cael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoli adeiladu.

Gall ceisydd wneud cais am "ddatganiad dros dro" os nad yw'r adeilad wedi'i gwblhau neu os nad oes ganddo hawl i'w feddiannu eto. Fodd bynnag, mae cais o'r fath yn broses ar wahân ac yn wahanol i roi caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoli adeiladu.

9.18 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ceisio osgoi unrhyw ddyblygu â systemau statudol / rheoleiddiol eraill lle bo modd, gan gynnwys cynllunio. Ni fydd yr awdurdod hwn yn ystyried a ydyw safle yn debygol o gael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu neu a ydyw'n cydymffurfio ag unrhyw ganiatâd neu gymeradwyaeth sy'n bodoli eisoes, wrth ei ystyried. Serch hynny, bydd yn gwrando ar, ac yn ystyried yn ofalus, unrhyw bryderon ynghylch amodau na all trwyddedeion eu bodloni oherwydd cyfyngiadau cynllunio, pe bai sefyllfa o'r fath yn codi.

9.19 Wrth ymdrin â chais am drwydded mangre ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni fydd yr awdurdod hwn yn ystyried a oes rhaid i'r adeiladau hynny gydymffurfio â'r caniatâd cynllunio neu adeiladu angenrheidiol. Ni fydd risgiau tân na risgiau iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried, gan fod y materion hyn yn cael eu trin o dan reoliadau cynllunio, adeiladau a rheoliadau eraill perthnasol, a rhaid iddynt beidio â ffurfio rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y drwydded mangre.

9.20 **Amcanion trwyddedu –** Rhaid i drwyddedau mangreoedd a roddir fod yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu. O ran yr amcanion hyn, mae'r awdurdod trwyddedu hwn wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae i awdurdodau lleol, a gwneir rhai sylwadau isod.


62

1. **Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn, neu rhag cael ei ddefnyddio i ategu trosedd –**

a) Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol y bydd y Comisiwn Hapchwarae yn cymryd rhan flaenllaw wrth atal hapchwarae rhag bod yn ffynhonnell troseddu.

b) Fodd bynnag, mae canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae yn rhagweld y dylai awdurdodau trwyddedu roi sylw i leoliad arfaethedig safleoedd hapchwarae o ran yr amcan trwyddedu hwn.

c) Felly, pan fo lefelau uchel o droseddu cyfundrefnol yn hysbys mewn ardal, bydd yr awdurdod hwn yn ystyried yn ofalus a ydyw safleoedd gamblo yn addas i'w lleoli yno ac a allai amodau fod yn addas, megis darparu goruchwylwyr drysau. Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng anhrefn a niwsans, a bydd yn ystyried ffactorau megis a oedd angen cymorth yr heddlu, a pha mor fygythiol oedd yr ymddygiad i'r rhai a allai ei weld, er mwyn gwneud y gwahaniaeth hwnnw. Ni ellir mynd i'r afael â materion niwsans trwy ddarpariaethau'r Ddeddf Gamblo.

d) Wrth baratoi ceisiadau am drwyddedau, cynghorir ceiswyr i ystyried y canlynol:

1. Dyluniad a chynllun yr adeilad
2. Lleoliad i'r graddau y mae'r lleoliad yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu
3. Yr hyfforddiant a roddir i staff mewn mesurau atal troseddu sy'n briodol i'r safleoedd hynny
4. Y nodweddion diogelwch ffisegol sydd wedi'u gosod yn yr adeilad; gall hyn gynnwys materion fel lleoliad tiliau neu safon y system deledu cylch cyfyng sydd wedi'i gosod
5. Os oes cyfyngiadau oedran ar safleoedd, y gweithdrefnau sydd ar waith i gynnal gwiriadau dilysu oedran
6. Y tebygolrwydd o unrhyw broblem trais, trefn gyhoeddus neu blismona os rhoddir y drwydded
7. Mewn perthynas ag atal anhrefn, mae gan yr awdurdod y gallu (o dan adran 169 o'r ddeddf) i osod amodau trwydded
8. Ymwybyddiaeth staff o'r rheoliadau gwyngalchu arian, a darparu gweithdrefn glir ar gyfer adrodd am unrhyw weithgarwch amheus i uwch-reolwyr

2. **Sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored –**

Mae'r awdurdod trwyddedu hwn wedi nodi bod y Comisiwn Hapchwarae wedi datgan na fyddai'n disgwyl i awdurdodau trwyddedu, yn gyffredinol, ymwneud â sicrhau bod hapchwarae'n cael ei gynnal mewn ffordd deg ac agored gan y bydd hyn yn cael ei drin trwy drwyddedau gweithredu a thrwyddedau personol. Fodd bynnag, mae mwy o rôl i'w chwarae o ran traciau, a eglurir yn fanylach yn yr adran 'traciau' isod – tudalen 21).

3. **Gwarchod plant a phobl eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu camfanteisio gan gamblo –**

a) Mae'r awdurdod trwyddedu hwn wedi nodi bod canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol yn nodi bod yr amcan hwn yn golygu atal plant rhag cymryd rhan mewn hapchwarae. Felly, bydd yr awdurdod trwyddedu yn

ystyried, fel yr awgrymir yng nghanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, a oes angen mesurau penodol mewn safleoedd penodol, o ran yr amcan trwyddedu hwn. Gall mesurau priodol gynnwys goruchwylio mynedfeydd / peiriannau, gwahanu ardaloedd o fewn yr un safle, hyfforddi staff, a dyluniad a chynllun y safle.

b) Mae'r awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn ymwybodol o godau ymarfer y Comisiwn Hapchwarae o ran yr amcan trwyddedu hwn, mewn perthynas ag eiddo penodol.

c) **Plant a phobl agored i niwed**

1. Plant
   Mae'r Ddeddf Gamblo a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y comisiwn yn gwneud darpariaeth fanwl ar gyfer gwarchod plant rhag niwed gamblo. Dylai deiliaid trwyddedau ymgyfarwyddo â'r darpariaethau hyn.

2. Pryniannau prawf
   Mae'n ofynnol i bob gweithredwr gamblo ar y tir gynnal neu gymryd rhan mewn profion prynu gwirio oedran er mwyn sicrhau bod ganddynt bolisïau a gweithdrefnau effeithiol i atal gamblo dan oed. Dylai trwyddedai gael gweithdrefnau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'w staff wirio oedran unrhyw gwsmer sy'n ymddangos o dan 25 oed, yn hytrach nag o dan 21 oed
   Disgwylir i bob safle hysbysu eu prif awdurdod yn ysgrifenedig (pan fo cytundebau o'r fath ar waith gyda gweithredwyr penodol) am y dull y maent wedi'i fabwysiadu, a rhannu canlyniadau profion o'r fath gyda'r awdurdod yn flynyddol gyda'r bwriad o weithio gyda'r awdurdod i wella cadernid gweithdrefnau sy'n atal plant rhag defnyddio cyfleusterau gamblo.

Disgwylir i'r rhai nad oes ganddynt gytundebau awdurdod sylfaenol o'r fath rannu canlyniadau pryniannau prawf o'r fath gyda'r awdurdod trwyddedu hwn.

d) **Pobl agored i niwed**

1. O ran y term "pobl agored i niwed" nodir nad yw'r Comisiwn Hapchwarae yn ceisio cynnig diffiniad ond yn datgan "y bydd, at ddibenion rheoleiddio, yn tybio bod y grŵp hwn yn cynnwys pobl sy'n gamblo mwy nag y maent am ei wneud; pobl sy'n gamblo y tu hwnt i'w modd; a phobl nad ydynt efallai'n gallu gwneud penderfyniadau gwybodus neu gytbwys am gamblo oherwydd nam meddyliol, alcohol neu gyffuriau." Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried yr amcan trwyddedu hwn fesul achos.

2. Mae'r awdurdod yn disgwyl i bob safle gamblo sicrhau bod gwybodaeth ar gael ynghylch y Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol, o ystyried y dystiolaeth o gysylltiad rhwng gamblo a chamfanteisio ariannol. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael gan yr adran drwyddedu.

e) **Hysbysu'r bwrdd iechyd lleol**
Bydd yr awdurdod trwyddedu yn hysbysu'r bwrdd iechyd lleol am geisiadau am drwyddedau mangreoedd gamblo.

f) **Canllawiau ymarfer da**
Cynghorir gweithredwyr safleoedd, awdurdodau cyfrifol a gwneuthurwyr penderfyniadau yn daer i ystyried canllawiau ymarfer gorau wrth asesu effaith rhoi trwydded.
Dylid cyfeirio'n benodol at yr adroddiadau canlynol:

- Fframwaith Llywodraeth Cymru ar Fynd i'r Afael â'r Economi Nos
- Y Berthynas Rhwng Alcohol ac Ymddygiadau Gamblo – Alcohol

Concern Cymru (2015)
- Gamblo gyda'n Hiechyd – Adroddiad Blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru 2016–2017

g) **Hyfforddiant**

Cynghorir gweithredwyr safleoedd i ddarparu hyfforddiant i staff sy'n cynnwys hyfforddiant ar faterion sy'n ymwneud â chyffuriau ac alcohol, yn enwedig hyfforddiant ar bolisïau lleol ar gyfer ymdrin â nodwyddau a daflwyd a risgiau firysau a gludir yn y gwaed, er mwyn gwarchod staff. Gallai hyfforddiant hefyd gynnwys ymwybyddiaeth o'r mathau o gyffuriau newydd, a chyffuriau sy'n dod i'r amlwg y cyfeirir atynt fel "sylweddau seicoweithredol newydd" (a elwid gynt yn "anterthau cyfreithlon") er mwyn cyfarparu staff yn well i ymdrin â'r defnydd ar y safle.

Gall gwasanaethau lleol ddarparu cyrsiau byr, pwrpasol am ddim i safleoedd trwyddedig, a chynghorir gweithredwyr yn daer i gysylltu â'r awdurdod trwyddedu i gael manylion sut i gael mynediad at y cyrsiau hyn.

Cynghorir gweithredwyr safleoedd yn daer hefyd i hyrwyddo gwasanaethau cymorth lleol ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau gamblo, cyffuriau ac alcohol. Gellir cael manylion ynghylch ble i gael deunydd hyrwyddo perthnasol gan yr awdurdod trwyddedu.

h) **Diogelu**

1. Mae Cyngor Sir Penfro yn credu bod diogelu plant a phobl agored i niwed yn flaenoriaeth.

2. Mae adran drwyddedu Cyngor Sir Benfro ar y cyd ag asiantaethau, gan gynnwys y Comisiwn Hapchwarae a Heddlu Dyfed-Powys, yn edrych i weithio mewn partneriaeth â thrwyddedai, eu staff a sefydliadau eraill i sicrhau bod safleoedd sy'n cynnig gweithgareddau hapchwarae yn gweithredu'n gyfrifol a chan roi sylw dyledus i blant a phobl agored i niwed.

3. Fel rhan o'r fenter hon mae'r grŵp wedi cynhyrchu deunydd gwybodaeth a hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth o faterion diogelu, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant, ac i ddarparu pwyntiau cyswllt lleol ar gyfer cyngor ac arweiniad yn ogystal ag i adrodd pryderon.

4. Mae'r awdurdod yn argymell bod angen i fusnesau sy'n cynnig gweithgareddau gamblo sicrhau bod eu staff wedi cael hyfforddiant digonol mewn perthynas â materion diogelu er mwyn ymateb yn briodol ac yn gyflym lle mae problemau'n codi. Mae'r cyngor hwn yr un mor bwysig i weithredwyr safleoedd sy'n cynnig peiriannau hapchwarae ochr yn ochr â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

5. Mae'r awdurdod yn awgrymu'n daer y dylai ceiswyr am awdurdodiadau gynnwys gwybodaeth ynghylch eu trefniadau ar gyfer hyfforddiant diogelu staff fel rhan o ddogfennau'r cais.

6. Cynghorir busnesau gamblo i gysylltu â'r adran drwyddedu, neu i ymweld â thudalennau gwe'r awdurdod am gamblo, i gael copïau o'r dogfennau.

**i) Bet-watch**

Mae'r awdurdod yn annog gweithredwyr lleol i greu a chynnal rhwydwaith rhannu gwybodaeth i drafod materion gamblwyr problemus a nodir, a bydd yn eu cynorthwyo i wneud hynny. Bydd hwn hefyd yn gyfle i weithredwyr drafod materion gyda swyddogion trwyddedu.


65

**Amodau**

9.21 Bydd unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau yn gymesur, a byddant:

- yn berthnasol i'r angen i wneud yr adeilad arfaethedig yn addas fel cyfleuster gamblo
- yn uniongyrchol gysylltiedig â'r safle a'r math o drwydded y gwneir cais amdani
- yn deg ac yn rhesymol gysylltiedig â graddfa a math y safle, ac
- yn rhesymol ym mhob agwedd arall

9.22 Gwneir penderfyniadau ar amodau unigol fesul achos, er y bydd nifer o fesurau y bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried eu defnyddio os bydd angen canfyddedig, megis defnyddio goruchwylwyr, arwyddion priodol ar gyfer ardaloedd i oedolion yn unig ac ati. Mae sylwadau penodol wedi'u gwneud yn hyn o beth o dan rai o'r mathau o drwyddedau isod. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn disgwyl i'r ceisydd am y drwydded gynnig ei awgrymiadau ei hun ynghylch ffyrdd y gellir cyflawni'r amcanion trwyddedu yn effeithiol.

9.23 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn ystyried mesurau penodol, a allai fod yn ofynnol ar gyfer adeiladau sy'n destun trwyddedau mangreoedd aml-ddefnydd.

9.24 Gall mesurau o'r fath gynnwys goruchwylio mynedfeydd; gwahanu gamblo oddi wrth ardaloedd lle na cheir gamblo y mae plant yn eu mynychu; a goruchwylio peiriannau hapchwarae mewn safleoedd nad ydynt yn benodol ar gyfer gamblo i oedolion er mwyn cyflawni'r amcanion trwyddedu. Mae'r materion hyn yn cydymffurfio â chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae.

9.25 Bydd yr awdurdod hwn hefyd yn sicrhau, pan fo peiriannau categori C neu uwch ar gael mewn safleoedd lle caniateir mynediad i blant:

- bod yr holl beiriannau o'r fath wedi'u lleoli mewn rhan o'r safle sydd wedi'i wahanu oddi wrth weddill y safle gan rwystr ffisegol sy'n effeithiol i atal mynediad heblaw drwy fynedfa ddynodedig
- mai dim ond oedolion sy'n cael mynediad i'r ardal lle mae'r peiriannau hyn wedi'u lleoli
- bod mynediad i'r ardal lle mae'r peiriannau wedi'u lleoli yn cael ei oruchwylio
- bod yr ardal lle mae'r peiriannau hyn wedi'u lleoli wedi'i threfnu fel y gall y staff neu ddeiliad y drwydded ei gweld, a
- bod hysbysiadau wedi'u harddangos yn amlwg wrth fynedfa a'r tu mewn i unrhyw ardaloedd o'r fath yn nodi bod mynediad i'r ardal wedi'i wahardd i unigolion o dan 18 oed

Bydd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i safleoedd yn cynnwys adeiladau lle mae trwyddedau mangreoedd aml-ddefnydd yn berthnasol.

9.26 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol y gall traciau fod yn destun un neu ragor o drwyddedau mangreoedd, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud ag ardal benodol o'r trac. Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o safle yn wahanol a bod plant yn cael eu heithrio o ardaloedd hapchwarae lle na chaniateir mynediad iddynt.

9.27 Nodir bod amodau na all yr awdurdod trwyddedu eu gosod ar drwyddedau mangreoedd, sef:

- unrhyw amod ar y drwydded mangre sy'n ei gwneud hi'n amhosibl cydymffurfio ag


66

amod trwydded weithredu

- amodau sy'n ymwneud â chategorïau, niferoedd, neu ddull gweithredu peiriannau hapchwarae
- amodau sy'n darparu bod aelodaeth o glwb neu gorff yn ofynnol (mae Deddf Gamblo 2005 yn dileu'r gofyniad aelodaeth ar gyfer clybiau casino a bingo yn benodol, ac mae'r ddarpariaeth hon yn atal ei adfer), ac
- amodau mewn perthynas â betio, ffioedd, ennill neu wobrau

9.28 **Goruchwylwyr drysau** – Mae'r Comisiwn Hapchwarae yn cynghori yn y Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu, os yw awdurdod trwyddedu yn pryderu y gallai safle ddenu anhrefn neu fod yn destun ymdrechion i gael mynediad heb awdurdod (er enghraifft gan blant a phobl ifanc), yna gall ei gwneud yn ofynnol bod y mynedfeydd i'r safle yn cael eu rheoli gan oruchwyliwr drysau, ac mae ganddo hawl i osod amod trwydded mangre i'r perwyl hwn.

Lle penderfynir bod goruchwylio mynedfeydd / peiriannau yn briodol ar gyfer achosion penodol, bydd angen ystyried a oes angen trwydded Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ar gyfer y rhain ai peidio. Ni fydd yn cael ei gymryd yn ganiataol yn awtomatig bod angen iddynt gael trwydded, gan fod y gofyniad statudol yn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o safleoedd (yn unol â'r canllawiau, Rhan 33).

9.29 Fodd bynnag, pan fo ceisydd yn dewis peidio â chyflogi goruchwylwyr drysau cofrestredig Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i'r ceisydd ddisgrifio yn ei gais sut y mae'n bwriadu gwneud y canlynol:

a) Cynnal gwiriad cofnod troseddol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar bob unigolyn
b) Rhoi manylion am ei feini prawf ar gyfer euogfarnau troseddol
c) Egluro'r dull arfaethedig o adnabod yr unigolion hyn wrth weithio fel goruchwylwyr drysau
d) Nodi'r gymhareb o weithredwyr gwrywaidd a benywaidd
e) Rhoi manylion yr hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl
f) Darparu cofrestr waith sy'n dangos yr amser a'r dyddiad dyletswydd (mae'r un peth yn wir am rai sydd wedi cofrestru gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch).

9.30 **Systemau Teledu Cylch Cyfyng** – Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn cydnabod gwerth systemau teledu cylch cyfyng wrth atal trosedd ac anhrefn. Cynghorir ymgeiswyr i ddilyn y canllawiau sydd ar gael gan Heddlu Dyfed-Powys ynghylch safonau a manylebau unrhyw system arfaethedig er mwyn sicrhau ei bod yn briodol ar gyfer y safle.

## 10. Canolfannau hapchwarae i oedolion

10.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn rhoi sylw penodol i'r angen i warchod plant a phobl agored i niwed rhag niwed, neu rhag cael eu camfanteisio gan gamblo, a bydd yn disgwyl i'r ceisydd fodloni'r awdurdod y bydd mesurau digonol i sicrhau, er enghraifft, nad oes gan bobl dan 18 oed fynediad i'r safle.

10.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i geiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i gyflawni'r amcanion trwyddedu, ond dylai mesurau / amodau trwydded priodol gwmpasu materion fel:

- mabwysiadu cynllun prawf oedran, fel Challenge 21 neu 25
- sut y bydd unrhyw risgiau i blant a phobl agored i niwed o ganlyniad i gamblo, sydd wedi'u nodi mewn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â pharagraff 19.5 o'r polisi hwn, yn cael eu trin
- teledu cylch cyfyng
- goruchwylio mynedfeydd / ardaloedd peiriannau
- gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- lleoliad mynediad
- hysbysiadau / arwyddion
- oriau agor penodol
- cynlluniau hunan-eithrio
- darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol, nac yn gynhwysfawr, a dim ond dangosol o fesurau enghreifftiol ydyw.



68

## 11. Canolfannau adloniant i deuluoedd (trwyddedig)

11.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn rhoi sylw penodol i'r angen i warchod plant a phobl agored i niwed rhag niwed, neu rhag cael eu camfanteisio gan gamblo, a bydd yn disgwyl i'r ceisydd fodloni'r awdurdod y bydd mesurau digonol i sicrhau, er enghraifft, nad oes gan bobl dan 18 oed fynediad i'r ardaloedd hynny sydd â pheiriannau hapchwarae i oedolion yn unig. Cynghorir ceiswyr yn daer i gyfeirio at yr wybodaeth ddiogelu a nodir ar dudalen 16 o'r ddogfen bolisi hon.

11.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i geiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i gyflawni'r amcanion trwyddedu, ond dylai mesurau / amodau trwydded priodol gwmpasu materion fel:

- teledu cylch cyfyng
- goruchwylio mynedfeydd / ardaloedd peiriannau
- gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- lleoliad mynediad
- hysbysiadau / arwyddion
- oriau agor penodol
- cynlluniau hunan-eithrio
- darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare
- mesurau / hyfforddiant i staff ar sut i ymdrin â phlant ysgol sydd dan amheuaeth o fod yn chwarae triwant ar y safle
- sut y bydd unrhyw risgiau i blant ac oedolion agored i niwed o ganlyniad i gamblo, sydd wedi'u nodi mewn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â pharagraff 19.5 o'r polisi hwn, yn cael eu trin

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol, nac yn gynhwysfawr, a dim ond dangosol o fesurau enghreifftiol ydyw.

11.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, yn cyfeirio at wefan y comisiwn i weld unrhyw amodau sy'n berthnasol i drwyddedau gweithredu sy'n ymdrin â'r ffordd y dylid diffinio'r ardal sy'n cynnwys y peiriannau categori C. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw amodau gorfodol neu ddiofyn ar y trwyddedau mangreoedd hyn, pan fyddant wedi'u cyhoeddi.

## 12. Casinos

12.1 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gasinos yn gweithredu yn y sir.

12.2 Nid oes penderfyniad i wahardd casinos yn y sir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae’r cyngor yn cadw’r hawl i adolygu’r sefyllfa hon ac efallai, rhywbryd yn y dyfodol, y bydd yn penderfynu peidio â chaniatáu casinos.

12.3 Os bydd y cyngor yn dewis gwneud penderfyniad o’r fath, bydd hwn yn benderfyniad gan y cyngor llawn yn dilyn trafodaeth ystyriol, a rhoddir y rhesymau dros wneud y penderfyniad. Nid oes hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn.


70

## 13. Safleoedd bingo

13.1 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn nodi bod canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae yn datgan y canlynol:

Ym mharagraff 18.4, nodir y bydd angen i awdurdodau trwyddedu fodloni eu hunain y gellir chwarae bingo mewn unrhyw safle bingo y maent yn rhoi trwydded mangre ar ei gyfer. Bydd hyn yn ystyriaeth berthnasol pan fo gweithredwr safle bingo presennol yn gwneud cais i amrywio ei drwydded i eithrio ardal o'r safle presennol o'i gwmpas ac yna'n gwneud cais am drwydded mangre newydd, neu drwyddedau aml-ddefnydd, ar gyfer yr ardal neu'r ardaloedd hynny sydd wedi'u heithrio.

13.2 Mae'r awdurdod hwn hefyd yn nodi'r canllawiau ym mharagraff 18.8 ynghylch yr amgylchiadau anarferol lle gellid caniatáu rhannu safle sydd eisoes yn bodoli yn ddau safle cyfagos, ac yn benodol nad yw'n ganiataol i leoli 16 o beiriannau hapchwarae categori B3 yn un o'r safleoedd sy'n deillio o hyn, gan y byddai'r hawl i beiriannau hapchwarae ar gyfer y safle hwnnw'n cael ei ragori.

13.3 Mae paragraff 18.7 ymhellach yn nodi bod plant a phobl ifanc yn cael mynd i mewn i safleoedd bingo, ond ni chaniateir iddynt gymryd rhan yn y bingo; ac os oes peiriannau categori B neu C ar gael i'w defnyddio, rhaid iddynt gael eu gwahanu oddi wrth ardaloedd lle caniateir plant a phobl ifanc.

13.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i geiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i gyflawni'r amcanion trwyddedu, ond dylai mesurau / amodau trwydded priodol gwmpasu materion fel:

- mabwysiadu cynllun prawf oedran, fel Challenge 21 neu 25
- sut y bydd unrhyw risgiau i blant a phobl agored i niwed o ganlyniad i gamblo, sydd wedi'u nodi mewn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â pharagraff 19.5 o'r polisi hwn, yn cael eu trin
- teledu cylch cyfyng
- goruchwylio mynedfeydd / ardaloedd peiriannau
- gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- lleoliad mynediad
- hysbysiadau / arwyddion
- oriau agor penodol
- cynlluniau hunan-eithrio
- darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare


71

## 14. Safleoedd betio

14.1 **Peiriannau betio** – Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, yn ystyried maint y safle, nifer y safleoedd cownter sydd ar gael ar gyfer trafodion o un unigolyn i'r llall, a gallu staff i fonitro defnydd y peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i'r rhai dan 18 oed fetio) neu gan bobl agored i niwed, wrth ystyried nifer / natur / amgylchiadau peiriannau betio y mae gweithredwr am eu cynnig. Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i geiswyr ddangos mesurau addas i sicrhau nad oes gan blant fynediad at beiriannau o'r fath.

14.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i geiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i gyflawni'r amcanion trwyddedu, ond dylai mesurau / amodau trwydded priodol gwmpasu materion fel:

- mabwysiadu cynllun prawf oedran, fel Challenge 21 neu 25
- sut y bydd unrhyw risgiau i blant a phobl agored i niwed o ganlyniad i gamblo, sydd wedi'u nodi mewn asesiad risg a gynhaliwyd yn unol â pharagraff 19.5 o'r polisi hwn, yn cael eu trin
- teledu cylch cyfyng
- goruchwylio mynedfeydd / ardaloedd peiriannau
- gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- lleoliad mynediad
- hysbysiadau / arwyddion
- oriau agor penodol
- cynlluniau hunan-eithrio
- darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare

14.3 Mae'r awdurdod yn cydnabod bod gan rai siopau betio nifer o safleoedd yn ei ardal. Er mwyn sicrhau bod unrhyw broblemau o ran cydymffurfio yn cael eu cydnabod a'u datrys cyn gynted â phosibl, gofynnir i weithredwyr roi un pwynt cyswllt enwol i'r awdurdod, a fydd yn unigolyn uwch, a phwy y bydd yr awdurdod yn cysylltu ag ef yn gyntaf os bydd unrhyw ymholiadau neu broblemau yn codi o ran cydymffurfio.



72

## 15. Traciau

15.1 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ymwybodol y gall traciau fod yn destun un neu ragor o drwyddedau mangreoedd, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud ag ardal benodol o'r trac. Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried yn arbennig yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu (h.y. gwarchod plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu camfanteisio gan hapchwarae) a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o safle yn wahanol, a bod plant yn cael eu heithrio o ardaloedd hapchwarae lle na chaniateir iddynt fynd i mewn.

15.2 Felly, bydd yr awdurdod hwn yn disgwyl i'r ceisydd am drwydded mangre ddangos mesurau addas i sicrhau nad oes gan blant fynediad i gyfleusterau hapchwarae i oedolion yn unig.

15.3 Nodir y caniateir i blant a phobl ifanc fynd i mewn i ardaloedd traciau lle darperir cyfleusterau ar gyfer betio ar ddiwrnodau pan gynhelir rasio cŵn a/neu rasio ceffylau, ond eu bod yn dal i gael eu hatal rhag mynd i mewn i ardaloedd lle darperir peiriannau hapchwarae (ac eithrio peiriannau categori D).

15.4 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i geiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i gyflawni'r amcanion trwyddedu, ond gall mesurau / amodau trwydded priodol gwmpasu materion fel:

- cynlluniau prawf oedran, fel Challenge 21 neu 25
- teledu cylch cyfyng
- goruchwylio mynedfeydd / ardaloedd peiriannau
- gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- lleoliad mynediad
- hysbysiadau / arwyddion
- oriau agor penodol
- cynlluniau hunan-eithrio
- darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol, nac yn gynhwysfawr, a dim ond dangosol o fesurau enghreifftiol ydyw.

15.5 **Peiriannau hapchwarae** – Lle mae gan y ceisydd drwydded gweithredu betio pwll a'i fod yn mynd i ddefnyddio'r hawl i bedwar peiriant hapchwarae, dylid lleoli peiriannau (ac eithrio peiriannau categori D) mewn ardaloedd lle mae plant wedi'u gwahardd rhag mynd iddynt.

15.6 **Peiriannau betio** – Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn, yn unol â Rhan 6 o ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, yn ystyried maint y safle a gallu staff i fonitro defnydd y peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i'r rhai dan 18 oed fetio), neu gan bobl agored i niwed, wrth ystyried nifer / natur / amgylchiadau peiriannau betio y mae gweithredwr yn bwriadu eu cynnig.

15.7 **Amod ar arddangos rheolau** – Mae'r Comisiwn Hapchwarae wedi cynghori yn ei ganllawiau i awdurdodau lleol y dylai "… awdurdodau trwyddedu atodi amod i drwyddedau mangreoedd trac sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y trac sicrhau bod y rheolau'n cael eu harddangos yn amlwg mewn ardaloedd betio, neu gerllaw iddynt, neu fod mesurau eraill yn cael eu cymryd i sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd.


73

Er enghraifft, gellid argraffu'r rheolau yn y cerdyn ras neu eu darparu ar ffurf taflen o swyddfa'r trac."

15.8 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i geiswyr ddangos sut y byddant yn cydymffurfio â'r canllaw hwn fel rhan o'u cais.

15.9 **Ceisiadau a chynlluniau**
Mae'r Ddeddf Gamblo (adran 51) yn ei gwneud yn ofynnol i geiswyr gyflwyno cynlluniau o'r safle gyda'u cais, er mwyn sicrhau bod gan yr awdurdod trwyddedu yr wybodaeth angenrheidiol i wneud barn wybodus ynghylch a ydyw'r safle'n addas ar gyfer gamblo. Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn defnyddio'r cynllun i gynllunio gweithgaredd archwilio safleoedd yn y dyfodol. (Gweler Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu, paragraff 20.43).

15.10 **Cynlluniau** – Disgwylir i geiswyr ddarparu cynllun o'r safle ar raddfa o 1:100 oni bai bod yr awdurdod wedi cytuno'n ysgrifenedig i'r ceisydd dderbyn cynllun ar raddfa amgen. Dylai'r cynllun ddangos y canlynol:

- Ffin gyfan yr eiddo, a'r holl adeiladau a strwythurau o fewn yr eiddo
- Lleoliad y pwyntiau lle ceir mynediad i'r safle a'r ffyrdd allan ohono
- Yr ardaloedd i'w defnyddio ar gyfer gweithgareddau gamblo, boed yn barhaol neu dros dro
- Unrhyw ardaloedd lle mae mynediad i blant wedi'i gyfyngu / wedi'i wahardd
- Lleoliad unrhyw hysbysiadau rhybudd neu wybodaeth
- Lleoliad unrhyw gyfleusterau cyhoeddus
- Lleoliad unrhyw ardaloedd gamblo ar y safle sydd wedi'u cynnwys o dan drwyddedau neu ganiatadau ar wahân
- Gall y cynllun gynnwys allwedd y gellir adnabod y materion uchod drwyddi

15.11 Mae'r awdurdod trwyddedu hwn o'r farn y byddai'n well pe bai pob safle hunangynhwysol a weithredir gan weithredwyr betio oddi ar y cwrs ar y trac yn destun trwyddedau mangreoedd ar wahân, er mwyn sicrhau bod eglurder rhwng cyfrifoldebau gweithredwr y trac a'r gweithredwr betio oddi ar y cwrs sy'n rhedeg uned hunangynhwysol ar y safle.

15.12 Mae'r awdurdod hwn yn sylweddoli ei bod hi weithiau'n anodd diffinio union leoliad ardaloedd betio ar draciau. Nid oes angen dangos union leoliad cyfleusterau betio ar gynlluniau traciau, oherwydd y ffaith bod betio yn cael ei ganiatáu yn unrhyw le ar y safle ac oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â nodi union leoliadau ar gyfer rhai mathau o draciau. Dylai ceiswyr ddarparu digon o wybodaeth fel y gall yr awdurdod hwn fodloni ei hun bod y cynllun yn nodi'r prif ardaloedd lle gallai betio ddigwydd. Ar gyfer meysydd rasio yn benodol, rhaid nodi unrhyw ardaloedd betio sy'n ddarostyngedig i'r "rheol pum gwaith" (a elwir yn aml yn gylchoedd betio) ar y cynllun. (Gweler Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu, paragraff 20.46).



74

## 16. Ffeiriau teithiol

16.1 Bydd yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu hwn benderfynu, lle mae peiriannau categori D a/neu hapchwarae am wobr cyfle cyfartal heb drwydded i'w gwneud ar gael i'w defnyddio mewn ffeiriau teithiol, a ydyw'r gofyniad statudol bod y cyfleusterau ar gyfer gamblo yn ddim mwy na difyrrwch ategol yn y ffair yn cael ei fodloni.

16.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn ystyried a ydyw'r ceisydd yn dod o fewn y diffiniad statudol o ffair deithiol.

16.3 Nodwyd bod yr uchafswm statudol o 27 niwrnod ar gyfer y tir sy'n cael ei ddefnyddio fel ffair fesul blwyddyn galendr, a'i fod yn berthnasol i'r darn o dir y cynhelir y ffeiriau arno ni waeth a ydyw'r un ffeiriau teithiol neu ffeiriau teithiol gwahanol yn meddiannu'r tir. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn gweithio gyda'i awdurdodau cyfagos i sicrhau bod tir sy'n croesi ffiniau yn cael ei fonitro fel nad eir y tu hwnt i'r terfynau statudol.



75

## 17. Datganiadau dros dro

17.1 Efallai y bydd datblygwyr am wneud cais i'r awdurdod hwn am ddatganiadau dros dro cyn ymrwymo i gontract i brynu neu brydlesu eiddo neu dir er mwyn barnu a ydyw datblygiad yn werth bwrw ymlaen ag ef yng ngoleuni'r angen i gael trwydded mangre. Nid oes angen i'r ceisydd ddal trwydded weithredu er mwyn gwneud cais am ddatganiad dros dro.

17.2 Mae adran 204 o'r Ddeddf Gamblo yn darparu i unigolyn wneud cais i'r awdurdod trwyddedu am ddatganiad dros dro mewn perthynas â safle y mae ef neu hi:

- yn disgwyl cael ei adeiladu
- yn disgwyl cael ei newid, neu
- yn disgwyl caffael hawl i'w feddiannu

17.3 Mae'r broses ar gyfer ystyried cais am ddatganiad dros dro yr un fath â'r un ar gyfer cais am drwydded mangre. Mae'n ofynnol i'r ceisydd roi hysbysiad o'r cais yn yr un modd ag y mae'n gwneud cais am drwydded mangre. Gall awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb wneud sylwadau, ac mae yna hawliau apelio.

17.4 Mewn cyferbyniad â'r cais am drwydded mangre, nid oes rhaid i'r ceisydd ddal trwydded weithredu gan y Comisiwn Hapchwarae, nac fod wedi gwneud cais am un, ac nid oes rhaid iddo gael hawl i feddiannu'r safle y gwneir ei gais dros dro mewn perthynas ag ef.

17.5 Yna gall deiliad datganiad dros dro wneud cais am drwydded mangre ar ôl i'r safle gael ei adeiladu, ei newid neu ei gaffael. Bydd cyfyngiadau ar yr awdurdod trwyddedu o ran y materion y gall eu hystyried wrth benderfynu ar y cais am drwydded mangre. O ran sylwadau ynghylch ceisiadau am drwydded mangre sydd yn dilyn rhoi datganiad dros dro, ni ellir ystyried unrhyw sylwadau pellach gan awdurdodau perthnasol na phartïon â diddordeb oni bai bod y canlynol yn wir:

- maent yn ymwneud â materion na ellid wedi mynd i'r afael â nhw yn ystod cam y datganiad dros dro, neu
- maent yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r ceisydd.

17.6 Yn ogystal, dim ond trwy gyfeirio at faterion y gall yr awdurdod wrthod y drwydded mangre (neu ei rhoi ar delerau gwahanol i'r rhai sydd ynghlwm wrth y datganiad dros dro):

- na allai gwrthwynebwyr fod wedi'i godi yng nghyfnod y datganiad dros dro
- sydd, ym marn yr awdurdod, yn adlewyrchu newid yn amgylchiadau'r gweithredwr, neu
- lle nad yw'r safle wedi'i adeiladu yn unol â'r cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais; rhaid i hyn fod yn newid sylweddol i'r cynllun, ac mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn nodi y gall drafod unrhyw bryderon sydd ganddo gyda'r ceisydd cyn gwneud penderfyniad



76

## 18. Adolygiadau

18.1 Gall partïon â diddordeb neu awdurdodau cyfrifol wneud ceisiadau am adolygiad o drwydded mangre, ond yr awdurdod trwyddedu sydd i benderfynu a ddylid cynnal yr adolygiad. Bydd hyn yn dibynnu ar a ydyw'r cais am yr adolygiad yn berthnasol i'r materion a restrir isod:

- yn cydymffurfio ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae
- yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae
- yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu, ac
- yn cydymffurfio â datganiad egwyddorion yr awdurdod

18.2 Bydd y cais am adolygiad hefyd yn amodol ar ystyriaeth gan yr awdurdod ynghylch a ydyw'r cais yn ddisylwedd, yn flinderus, neu a fydd yn sicr o beidio ag achosi i'r awdurdod hwn ddymuno newid / dirymu / atal y drwydded, neu a ydyw'n sylweddol yr un fath â sylwadau neu geisiadau blaenorol am adolygiad.

18.3 Gall yr awdurdod trwyddedu hefyd gychwyn adolygiad o drwydded mangre benodol, neu ddosbarth penodol o drwydded mangre ar sail unrhyw reswm y mae'n ei ystyried yn briodol.

18.4 Unwaith y bydd cais dilys am adolygiad wedi dod i law'r awdurdod trwyddedu, gall awdurdodau cyfrifol a phartïon â diddordeb wneud sylwadau yn ystod cyfnod o 28 niwrnod. Mae'r cyfnod hwn yn dechrau saith niwrnod ar ôl i'r awdurdod trwyddedu gael y cais, a fydd yn cyhoeddi hysbysiad o'r cais o fewn saith niwrnod i'r cais ddod i law.

18.5 Rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnal yr adolygiad cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cyfnod o 28 niwrnod ar gyfer gwneud sylwadau fynd heibio.

18.6 Diben yr adolygiad fydd penderfynu a ddylai'r awdurdod trwyddedu gymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r drwydded. Os oes cyfiawnhad dros weithredu, y dewisiadau sydd ar gael i'r awdurdod trwyddedu yw:

(a) ychwanegu, dileu neu ddiwygio amod trwydded a osodwyd gan yr awdurdod trwyddedu
(b) eithrio amod diofyn a osodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (e.e. oriau agor) neu ddileu neu ddiwygio eithriad o'r fath
(c) atal y drwydded mangre am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis, a
(d) dirymu'r drwydded mangre

18.7 Wrth benderfynu pa gamau gweithredu, os o gwbl, y dylid eu cymryd yn dilyn adolygiad, rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried yr egwyddorion a nodir yn adran 153 o'r ddeddf, yn ogystal ag unrhyw sylwadau perthnasol.

18.8 Yn benodol, gall yr awdurdod trwyddedu hefyd gychwyn adolygiad o drwydded mangre ar y sail nad yw deiliad trwydded mangre wedi darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo yn y safle. Mae hyn er mwyn atal pobl rhag gwneud cais am drwyddedau mewn modd damcaniaethol heb fwriadu eu defnyddio.

18.9 Unwaith y bydd yr adolygiad wedi'i gwblhau, rhaid i'r awdurdod trwyddedu, cyn gynted â phosibl, hysbysu'r canlynol o'i benderfyniad:

- deiliad y drwydded


77

- y ceisydd am adolygiad (os o gwbl)
- y comisiwn
- unrhyw unigolyn a wnaeth sylwadau
- prif swyddog yr heddlu neu’r prif gwnstabl
- Comisiynwyr Ei Fawrhydi dros Gyllid a Thollau

## 19. Asesiadau risg

19.1 Mae angen asesiadau risg o'r fath gan geiswyr newydd, a chan drwyddedeion safle presennol sy'n ceisio amrywio trwydded. Mae'r Amodau Trwydded a'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae (y cod) yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithredwr canolfan hapchwarae i oedolion, safle bingo, canolfan adloniant i deuluoedd, siop fetio a chyfryngwyr betio o bell asesu risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu, a chael polisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli ar waith i liniaru'r risgiau hynny.Mae rhagor o wybodaeth am asesiadau risg ardal leol ar gael ar wefan y Comisiwn Hapchwarae https://www.gamblingcommission.gov.uk/licensees-and-businesses/guide/local-area-risk-assessments

19.2 Mae'n ofynnol i weithredwyr, yn ôl y cod a gyhoeddwyd ar 6 Ebrill 2016, sicrhau bod yr asesiad risg ar gael i awdurdodau trwyddedu pan gyflwynir cais am drwydded mangre newydd, neu newid i drwydded mangre, neu fel arall ar gais. Bydd hyn yn rhan o drefn arolygu'r awdurdod, a gellir gofyn amdano pan fydd swyddogion yn ymchwilio i gwynion.

19.3 Cynghorir gweithredwyr yn daer i sicrhau bod copi o'r asesiad risg safle cyfredol yn cael ei gadw ar y safle ochr yn ochr â dogfen y drwydded mangre, a'i fod ar gael i staff.

19.4 Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod nodi materion y maent yn disgwyl i'r gweithredwr eu hystyried yn yr asesiad risg yn ei ddatganiad polisi, ac mae'r awdurdod hwn yn disgwyl i'r materion canlynol gael eu hystyried gan weithredwyr wrth wneud eu hasesiad risg:

- Gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithriadau ac achosion o gamblo dan oed
- Tueddiadau hapchwarae a allai adlewyrchu taliadau budd-daliadau a diwrnodau cyflog
- Trefniant ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-waharddiadau a thueddiadau hapchwarae
- Rhaid i asesiadau risg ymdrin ag agosrwydd at ysgolion, hosteli ac ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol
- Amrywiaeth o gyfleusterau gerllaw'r safle trwyddedig, megis siopau gamblo eraill, banciau, swyddfeydd post, cyfleusterau lluniaeth ac adloniant
- Problemau hysbys yn yr ardal, megis problemau sy'n deillio o yfwyr ar y stryd, pobl ifanc yn cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gweithgareddau delio cyffuriau, ac ati

19.5 Mae'r awdurdod yn disgwyl i'r materion canlynol gael eu hystyried gan weithredwyr wrth wneud eu hasesiad risg.

Materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys y canlynol:

- Sefydliadau, lleoedd neu ardaloedd lle dylid disgwyl presenoldeb plant a phobl ifanc, megis ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau, meysydd chwarae a lleoliadau adloniant, megis neuaddau bowlio, sinemâu ac ati
- Unrhyw safle lle mae plant yn ymgrynhoi, gan gynnwys arosfannau bysiau, caffis, siopau, ac unrhyw le arall lle mae plant yn cael eu denu iddo
- Ardaloedd sy'n dueddol o gael problemau gyda phobl ifanc yn cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau fel graffiti / tagio, yfed dan oed, ac ati
- Digwyddiadau a gofnodwyd o geisio gamblo dan oed

19.6 Materion sy’n ymwneud ag oedolion agored i niwed, gan gynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithriadau ac achosion o gamblo dan oed
- Tueddiadau gemau a all adlewyrchu dyddiau pan geir taliadau ariannol, megis diwrnodau cyflog neu daliadau budd-daliadau
- Trefniant ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-waharddiadau a thueddiadau hapchwarae
- Agosrwydd safleoedd yr ymwelir â hwy yn aml gan bobl agored i niwed, megis ysbytai, cartrefi gofal preswyl, mannau addoli, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cyngor, clinigau neu ganolfannau cymorth dibyniaeth, mannau lle bydd pobl sy’n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau yn ymgrynhoi, ac ati

19.7 Nid yw’r rhestr hon yn gynhwysfawr, a rhaid ystyried ffactorau perthnasol eraill nad ydynt yn y rhestr hon sydd wedi’u nodi.


80

# RHAN C
# Trwyddedau / Hysbysiadau defnydd dros dro ac achlysurol

## 20 Trwyddedau peiriannau hapchwarae ar gyfer canolfannau adloniant didrwydded i deuluoedd
**(Datganiad o egwyddorion ar drwyddedau – Atodlen 10 paragraff 7)**

20.6 Pan nad oes gan safle drwydded mangre ond ei fod yn dymuno darparu peiriannau hapchwarae, gall wneud cais i'r awdurdod trwyddedu am y drwydded hon. Dylid nodi bod yn rhaid i'r ceisydd ddangos y bydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer gwneud peiriannau hapchwarae ar gael i'w defnyddio (adran 238 o'r ddeddf).

20.7 Dim ond os yw'r awdurdod trwyddedu yn fodlon y bydd yr adeilad yn cael ei ddefnyddio fel canolfan adloniant didrwydded i deuluoedd, a bod ymgynghori wedi cael ei wneud â Phrif Swyddog yr Heddlu ar y cais, y caniateir cais am drwydded. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i geiswyr wneud y canlynol:

- Dangos dealltwriaeth lawn o'r betiau a'r gwobrau uchaf ar gyfer gamblo a ganiateir mewn canolfannau adloniant didrwydded i deuluoedd
- Dangos nad oes gan y ceisydd unrhyw gollfarnau perthnasol (y rhai a nodir yn Atodlen 7 y ddeddf)
- Dangos bod staff wedi'u hyfforddi i gael dealltwriaeth lawn o'r betiau a'r gwobrau uchaf
- Dangos dealltwriaeth o faterion diogelu a amlygwyd ar dudalen 15 o'r polisi hwn
- Darparu gwiriad cofnod troseddol sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, neu allbrint mynediad at ddata o Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu wedi'i ddyddio o fewn un mis calendr i ddyddiad cyflwyno'r cais (oni bai bod gan y ceisydd drwydded gweithredwr gyfredol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae)
- Darparu cynlluniau o'r safle sy'n cydymffurfio â gofynion paragraffau 15.9–15.10 o'r polisi hwn, ac sy'n dangos lleoliadau arfaethedig peiriannau hapchwarae a lleoliadau staff sy'n rheoli ac yn goruchwylio'r ganolfan

20.8 Wrth ystyried unrhyw euogfarnau a ddatgelir mewn cais, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried natur a pherthnasedd y drosedd, pa mor bell yn ôl y digwyddodd, ac unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn berthnasol. Bydd y cais yn ddarostyngedig i delerau'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr, ac ni chaniateir cyfeirio at gollfarnau "sydd wedi darfod" wrth ystyried y cais am drwydded. Bydd y broses ymgeisio yn cyfeirio'n benodol at y troseddau perthnasol a restrir yn Atodlen 7 i Ddeddf Gamblo 2005.

20.9 Dylid nodi na all awdurdod trwyddedu atodi amodau i'r math hwn o drwydded.

20.10 **Datganiad o egwyddorion** – Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i'r ceisydd ddangos bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i warchod plant rhag niwed. Nid yw niwed yn y cyd-destun hwn wedi'i gyfyngu i niwed o gamblo, ond mae'n cynnwys ystyriaethau gwarchod plant yn ehangach.

20.11 Bydd effeithlonrwydd polisïau a gweithdrefnau o'r fath yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau, ond gallant gynnwys mesurau / hyfforddiant priodol i staff o ran plant ysgol yr amheuir eu bod yn chwarae triwant ar y safle, mesurau / archwilio staff / hyfforddiant priodol sy'n ymdrin â sut y byddai staff yn ymdrin â phlant ifanc iawn heb

oruchwyliaeth ar y safle, neu blant sy'n achosi problemau canfyddedig ar y safle neu o'i amgylch. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn disgwyl, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, y bydd ceiswyr yn dangos dealltwriaeth lawn o'r betiau a'r gwobrau uchaf ar gyfer gamblo a ganiateir mewn canolfannau adloniant didrwydded i deuluoedd; nad oes gan y ceisydd unrhyw gollfarnau perthnasol (y rhai a nodir yn Atodlen 7 y ddeddf); a bod staff wedi'u hyfforddi i gael dealltwriaeth lawn o'r betiau a'r gwobrau uchaf.

20.12 Cynghorir ceiswyr i gyfeirio at y cyngor diogelu a amlinellir ar dudalen 16 o'r polisi hwn, neu gysylltu â'r awdurdodau cyfrifol perthnasol er mwyn cael rhagor o arweiniad.

## 21 Trwyddedau peiriannau hapchwarae ar gyfer safleoedd trwyddedig (alcohol)

**Peiriannau hapchwarae – hawl awtomatig**

21.1 Mae darpariaeth yn y ddeddf i safleoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol i'w yfed ar y safle, gael dau beiriant hapchwarae yn awtomatig, o gategorïau C a/neu D. Dim ond hysbysu'r awdurdod trwyddedu a thalu'r ffi ragnodedig y mae angen i'r safle ei wneud.

21.2 Gall yr awdurdod trwyddedu ddileu'r awdurdodiad awtomatig mewn perthynas ag unrhyw safle penodol:

- os nad yw darparu'r peiriannau yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu
- os ydyw hapchwarae wedi digwydd ar y safle sy'n torri amod adran 282 o'r Ddeddf Gamblo (h.y. bod hysbysiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu i'r awdurdod trwyddedu, bod ffi wedi'i darparu a bod unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriant wedi'i gydymffurfio ag ef)
- os defnyddir y safle yn bennaf ar gyfer hapchwarae, neu
- os oes trosedd o dan y Ddeddf Gamblo wedi'i chyflawni ar y safle

**21.3 Trwydded peiriant hapchwarae: tri neu ragor o beiriannau – (Atodlen 13 paragraff 4(1))**

Os yw safle yn dymuno cael mwy na dau beiriant, mae angen iddo wneud cais am drwydded, a rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried y cais hwnnw yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu o dan ddeddf 2005, unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae o dan adran 25 o Ddeddf Gamblo 2005, a "materion y maent yn eu hystyried yn berthnasol".

Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn ystyried y bydd "materion o'r fath" yn cael eu penderfynu fesul achos, ond yn gyffredinol bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r angen i warchod plant a phobl agored i niwed rhag niwed, neu rhag cael eu camfanteisio gan gamblo, a bydd yn disgwyl i'r ceisydd fodloni'r awdurdod y bydd mesurau digonol i sicrhau nad oes gan bobl dan 18 oed fynediad i'r peiriannau hapchwarae i oedolion yn unig. Gall mesurau a fydd yn bodloni'r awdurdod na fydd mynediad gynnwys sicrhau bod y peiriannau i oedolion yng ngolwg y bar, neu yng ngolwg staff a fydd yn monitro nad yw'r peiriannau'n cael eu defnyddio gan unigolion o dan 18 oed. Gall hysbysiadau ac arwyddion helpu hefyd. O ran gwarchod pobl sy'n agored i niwed, efallai y bydd ceiswyr am ystyried darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare.

Felly, mae'n ofynnol i geiswyr am drwyddedau peiriannau hapchwarae ar gyfer safleoedd trwyddedig ddarparu'r wybodaeth ganlynol ochr yn ochr â'u cais:

1. Cynllun o'r safle yn unol â pharagraff 15.10 o'r polisi hwn, lle byddant yn dangos lleoliad arfaethedig pob peiriant hapchwarae ynghyd â manylion lleoliadau staff goruchwylio, yn ogystal ag hysbysiadau ac arwyddion
2. Gwybodaeth ynghylch natur y safle, gan gynnwys mynediad i'r safle gan unigolion o dan 18 oed
3. Mae'n ofynnol i geiswyr ddangos y bydd y gweithgaredd gamblo a gynigir yn y safle yn atodol / yn gysylltiedig â'r gweithgareddau trwyddedadwy eraill yn y safle.

**21.4** Cydnabyddir y gall rhai safleoedd trwyddedig alcohol wneud cais am drwydded mangre

ar gyfer eu hardaloedd trwyddedig di-alcohol. Mae'n fwyaf tebygol y byddai angen gwneud cais am unrhyw gais o'r fath, a'i drin fel trwydded mangre canolfan hapchwarae i oedolion.

**21.5** Dylid nodi y gall yr awdurdod trwyddedu benderfynu caniatáu'r cais gyda nifer llai o beiriannau a/neu gategori gwahanol o beiriannau na'r hyn y gwnaed cais amdano. Ni ellir rhoi effaith i amodau (heblaw am y rhain).

**21.6** Dylid nodi hefyd bod yn rhaid i ddeiliad trwydded gydymffurfio ag unrhyw god ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriant.

**21.7** Gall yr awdurdod lleol ymgynghori â'r heddlu cyn penderfynu ar unrhyw geisiadau o'r fath.

## 22 Trwyddedau hapchwarae am wobr – (Datganiad o Egwyddorion ar Drwyddedau – Atodlen 14 paragraff 8 (3))

**22.3** Mae Deddf Gamblo 2005 yn nodi y gall awdurdod trwyddedu "baratoi datganiad o egwyddorion y mae'n bwriadu eu cymhwyso wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr Atodlen hon" a all "yn benodol, nodi materion y mae'r awdurdod trwyddedu yn bwriadu eu hystyried wrth benderfynu ar addasrwydd y ceisydd am drwydded".

**22.4 Datganiad o egwyddorion** – Dylai ceisydd nodi'r mathau o hapchwarae y mae'n bwriadu eu cynnig, a dylai'r ceisydd allu dangos:

- ei fod yn deall y terfynau ar fetiau a gwobrau a nodir yn y rheoliadau
- bod yr hapchwarae a gynigir o fewn y gyfraith
- polisïau clir sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd i warchod plant rhag niwed

**22.5** Wrth wneud ei benderfyniad ar gais am y drwydded hon, nid oes angen i'r awdurdod trwyddedu ystyried yr amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, rhaid iddo ystyried unrhyw ganllawiau gan y Comisiwn Hapchwarae (Deddf Gamblo 2005, Atodlen 14 paragraff 8(3)).

**22.6** Dylid nodi bod amodau yn Neddf Hapchwarae 2005 y mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded gydymffurfio â nhw, ond na all yr awdurdod trwyddedu roi effaith i amodau. Mae'r amodau yn y ddeddf fel a ganlyn:

- Rhaid cydymffurfio â'r terfynau ar ffioedd cyfranogi, fel y'u nodir yn y rheoliadau.
- Rhaid dyrannu pob cyfle i gymryd rhan yn yr hapchwarae ar y safle lle mae'r hapchwarae yn digwydd ac ar un diwrnod; rhaid chwarae a chwblhau'r gêm ar y diwrnod y dyrennir y cyfleoedd; a rhaid cyhoeddi canlyniad y gêm yn y safle ar y diwrnod y caiff ei chwarae.
- Ni ddylai'r wobr y chwaraeir y gêm amdani fod yn fwy na'r swm a nodir yn y rheoliadau (os yw'n wobr ariannol), neu'r gwerth rhagnodedig (os yw'n wobr anariannol).
- Ni ddylai cymryd rhan yn yr hapchwarae roi'r hawl i'r chwaraewr gymryd rhan mewn unrhyw gamblo arall.


85

•

## 23 Trwyddedau hapchwarae mewn clwb ac ar gyfer peiriannau clwb

**23.3** Gall clybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr (ond nid clybiau masnachol) wneud cais am drwydded hapchwarae mewn clwb. Bydd y drwydded hapchwarae mewn clwb yn galluogi'r safle i ddarparu peiriannau hapchwarae (tri pheiriant o gategorïau B, C neu D), hapchwarae cyfle cyfartal a gemau siawns fel y nodir mewn rheoliadau arfaethedig.

Gall clybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr – a chlybiau masnachol hefyd – wneud cais am drwydded peiriant clwb. Bydd trwydded peiriannau clwb yn galluogi'r safle i ddarparu peiriannau hapchwarae (tri pheiriant o gategorïau B, C neu D). Noder: ni chaiff clybiau masnachol osod peiriannau hapchwarae categori B3A sy'n cynnig gemau loteri yn eu clwb.

**23.4** Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn nodi bod canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae yn datgan y canlynol:

25.44 Rhaid i'r awdurdod lleol fodloni ei hun bod y clwb yn bodloni gofynion y ddeddf i gael trwydded hapchwarae mewn clwb. Wrth wneud hynny bydd yn ystyried nifer o faterion fel yr amlinellir yn adrannau 25.45–25.47 o ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae. Mae'r rhain yn

cynnwys cyfansoddiad y clwb, amlder yr hapchwarae, a sicrhau bod mwy na 25 o aelodau.

Rhaid i'r clwb gael ei gynnal 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf' at ddibenion heblaw hapchwarae, oni bai bod yr hapchwarae wedi'i ganiatáu gan reoliadau ar wahân. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud rheoliadau ac mae'r rhain yn cwmpasu clybiau bridge a chwist.

**23.5** Mae canllawiau'r comisiwn hefyd yn nodi mai dim ond ar sail y canlynol y gall awdurdodau trwyddedu wrthod cais:

(a) nid yw'r ceisydd yn bodloni'r gofynion ar gyfer clwb aelodau neu fasnachol neu sefydliad lles glowyr, ac felly nid oes ganddo hawl i gael y math o drwydded y mae wedi gwneud cais amdani
(b) mae safle'r ceisydd yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc
(c) mae trosedd o dan y ddeddf neu dorri trwydded wedi'i gyflawni gan y ceisydd wrth ddarparu cyfleusterau hapchwarae
(d) mae trwydded a ddelid gan y ceisydd wedi'i chanslo yn ystod y ddeng mlynedd flaenorol, neu
(e) mae gwrthwynebiad wedi'i gyflwyno gan y comisiwn neu'r heddlu

**23.6** Mae gweithdrefn 'llwybr cyflym' ar gael hefyd o dan y ddeddf ar gyfer safleoedd sydd â Thystysgrif Mangre Clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 (Atodlen 12, paragraff 10). Fel mae canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol yn ei nodi: "O dan y weithdrefn llwybr cyflym nid oes cyfle i'r comisiwn na'r heddlu wneud gwrthwynebiadau, ac mae nifer y rhesymau y gall awdurdod wrthod trwydded arnynt yn llai". Mae'r rhesymau dros wrthod cais o dan y broses fel a ganlyn:

(a) bod y clwb wedi'i sefydlu'n bennaf ar gyfer hapchwarae, heblaw am hapchwarae a ragnodir o dan atodlen 12
(b) yn ogystal â'r hapchwarae rhagnodedig, mae'r ceisydd yn darparu cyfleusterau


86

ar gyfer mathau eraill o hapchwarae; neu

(c) mae trwydded hapchwarae mewn clwb neu drwydded peiriant clwb a roddwyd i'r ceisydd yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf wedi'i chanslo

**23.7** Mae amodau statudol ar drwyddedau hapchwarae mewn clwb nad oes unrhyw blentyn yn defnyddio peiriant categori B neu C ar y safle a bod y deiliad yn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth berthnasol mewn cod ymarfer ynghylch lleoliad a gweithrediad peiriannau hapchwarae.

**23.8** Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl i geiswyr gynnig eu mesurau eu hunain i gyflawni'r amcanion trwyddedu, ond dylai mesurau / amodau trwydded priodol gwmpasu materion fel:

- mabwysiadu cynllun prawf oedran, fel Challenge 21 neu 25
- sut y bydd unrhyw risgiau i blant a phobl agored i niwed o ganlyniad i gamblo yn cael eu trin
- teledu cylch cyfyng
- goruchwylio mynedfeydd / ardaloedd peiriannau
- gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- lleoliad mynediad
- hysbysiadau / arwyddion
- oriau agor penodol
- cynlluniau hunan-eithrio
- darparu taflenni gwybodaeth / rhifau llinellau cymorth ar gyfer sefydliadau fel GamCare

## 24 Hysbysiadau defnydd dros dro

**24.3** Mae hysbysiadau defnydd dros dro yn caniatáu defnyddio safle ar gyfer gamblo lle nad oes trwydded mangre ond lle mae gweithredwr gamblo yn dymuno defnyddio'r safle dros dro i ddarparu cyfleusterau ar gyfer gamblo. Byddai safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer hysbysiad defnydd dros dro, yn ôl y Comisiwn Hapchwarae, yn cynnwys gwestai, canolfannau cynadledda a lleoliadau chwaraeon.

**24.4** Dim ond i unigolyn neu gwmni sy'n dal trwydded weithredu berthnasol y gall yr awdurdod trwyddedu roi hysbysiad defnydd dros dro, h.y. trwydded weithredu casino nad yw mewn lle anghysbell.

**24.5** Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i benderfynu pa fath o gamblo y gellir ei awdurdodi gan hysbysiadau defnydd dros dro, ac ar adeg ysgrifennu'r datganiad hwn mae'r rheoliadau perthnasol (offeryn statudol rhif 3157: Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Hysbysiadau Defnydd Dros Dro) 2007) yn nodi mai dim ond i ganiatáu darparu cyfleusterau neu hapchwarae cyfle cyfartal y gellir defnyddio hysbysiadau defnydd dros dro, lle bwriedir i'r hapchwarae gynhyrchu un enillydd, sydd yn ymarferol yn golygu twrnameintiau pocer.

**24.6** Mae nifer o derfynau statudol o ran hysbysiadau defnydd dros dro. Trafodir ystyr "safle" yn Rhan 8 o'r ddeddf yn Rhan 7 o'r Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae. Fel gyda "safleoedd", bydd diffiniad "set o safleoedd" yn gwestiwn o ffaith yn amgylchiadau penodol pob hysbysiad a roddir. Yn y ddeddf, diffinnir "safle" fel rhywbeth sy'n cynnwys "unrhyw le". Wrth ystyried a ydyw lle yn dod o fewn y diffiniad o "set o safleoedd", bydd yr awdurdod trwyddedu yn edrych ar berchnogaeth / meddiannaeth, ymhlith pethau eraill, a rheolaeth y safle.

**24.7** Mae'r awdurdod trwyddedu hwn yn disgwyl gwrthwynebu hysbysiadau lle mae'n ymddangos y byddai eu heffaith yn caniatáu gamblo rheolaidd mewn lle y gellid ei ddisgrifio fel un set o safleoedd, fel yr argymhellir yn y Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae.

## 25 Hysbysiadau defnydd achlysurol

**25.3** Ychydig iawn o ddisgresiwn sydd gan yr awdurdod trwyddedu o ran yr hysbysiadau hyn ar wahân i sicrhau nad yw'r terfyn statudol o wyth niwrnod mewn blwyddyn galendr yn cael ei ragori. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn, fodd bynnag, yn ystyried diffiniad 'trac', ac a ganiateir i'r ceisydd fanteisio ar yr hysbysiad. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn sicrhau na fydd mwy nag wyth hysbysiad defnydd achlysurol yn cael eu cyhoeddi mewn un flwyddyn galendr mewn perthynas ag unrhyw leoliad.

## 26 Loterïau cymdeithasau bach

**26.3** Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg tuag at ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loterïau cymdeithasau bach. Mae'r awdurdod hwn o'r farn y gallai'r rhestr ganlynol, er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- Cyflwyno ffurflenni treth hwyr (rhaid cyflwyno ffurflenni treth o fewn tri mis fan bellaf ar ôl y dyddiad y tynnwyd y loteri)
- Cyflwyno ffurflenni anghyflawn neu anghywir
- Torri'r terfynau ar gyfer loterïau cymdeithasau bach

**26.4** Caniateir hapchwarae anfasnachol os ydyw'n digwydd mewn digwyddiad anfasnachol, naill ai fel gweithgaredd damweiniol neu brif weithgaredd yn y digwyddiad. Mae digwyddiadau yn anfasnachol os nad yw unrhyw ran o'r enillion at elw neu fudd preifat. Gall enillion digwyddiadau o'r fath fod o fudd i un neu ragor o unigolion os yw'r gweithgaredd wedi'i drefnu:

- gan neu ar ran elusen, neu at ddibenion elusennol
- er mwyn galluogi cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon, athletaidd neu ddiwylliannol, neu eu cefnogi

Dylai elusennau a grwpiau cymunedol gysylltu â'r awdurdod trwyddedu hwn i gael rhagor o gyngor.

**DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU**

| **Mater i'w drin** | **Cyngor Llawn / Cabinet** | **Is-bwyllgor** | **Swyddogion** |
|---|---|---|---|
| Cymeradwyaeth derfynol o bolisi trwyddedu tair blynedd | X | | |
| Polisi i beidio â chaniatáu casinos | X | | |
| Gosod ffioedd (pan fo'n briodol) | X | | |
| Cais am drwyddedau mangreoedd | | Lle mae sylwadau wedi dod i law a heb eu tynnu'n ôl | Lle na ddaeth sylwadau i law, a lle mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am amrywiad i drwydded | | Lle mae sylwadau wedi dod i law a heb eu tynnu'n ôl | Lle na ddaeth sylwadau i law, a lle mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am drosglwyddo trwydded | | Lle mae sylwadau gan y comisiwn wedi dod i law | Lle nad oes unrhyw sylwadau wedi dod i law gan y comisiwn |
| Cais am ddatganiad dros dro | | Lle mae sylwadau wedi dod i law a heb eu tynnu'n ôl | Lle na ddaeth sylwadau i law, a lle mae sylwadau wedi'u tynnu'n ôl |
| Cais am adolygiad o drwydded mangre / clwb | | X | |
| Cais am hapchwarae mewn clwb / trwyddedau peiriannau clwb | | Lle mae gwrthwynebiadau wedi'u gwneud a heb eu tynnu'n ôl | Lle nad oes gwrthwynebiadau wedi'u gwneud, neu lle mae gwrthwynebiadau wedi'u tynnu'n ôl |
| Canslo hapchwarae mewn clwb / trwyddedau peiriannau clwb | | X | |
| Ceisiadau am drwyddedau eraill | | Lle mae gwrthwynebiadau wedi'u gwneud a heb eu tynnu'n ôl | Lle nad oes gwrthwynebiadau wedi'u gwneud, neu lle mae gwrthwynebiadau wedi'u tynnu'n ôl |
| Canslo trwyddedau peiriannau hapchwarae safleoedd trwyddedig | | | X |
| Ystyried hysbysiad defnydd dros dro | | | X |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad i roi gwrth-hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro | | X | |
| Penderfynu a ydyw sylwadau yn amherthnasol, yn ofer neu'n flinderus | | | X |

X – yn dynodi'r lefel isaf y gellir dirprwyo penderfyniadau iddi.

**Atodiad B**

**Manylion cyswllt yr**

**awdurdod trwyddedu**
Adran Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir
Penfro Neuadd y Sir
Hwlffordd Sir
Benfro SA61
1TP
Ffôn: 01437 764551
E-bost: licensing@pembrokeshire.gov.uk

**Y Comisiwn Hapchwarae**
Victoria Square House
Victoria Square
Birmingham
B2 4BP
Rhif ffôn: 0121 230 6666
E-bost: info@gamblingcommission.gov.uk

~~**Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)**~~
~~100 Parliament Street~~
~~Llundain~~
~~SW1A 2BQ~~
~~Rhif ffôn: 020 7211 6000~~
~~E-bost: enquiries@culture.gov.uk~~

**Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF)**
HM Revenue and Customs
Excise Processing Teams
BX9 1GL
Y Deyrnas Unedig
Rhif ffôn: 0300 322 7072 Opsiwn 7
E-bost: nrubetting&gaming@hmrc.gsi.gov.uk

**Yr Awdurdod Cynllunio**

**PerthnasolNaill ai**

Pennaeth Cynllunio Cyngor Sir
Penfro Neuadd y Sir
Hwlffordd Sir
Benfro SA61
1TP
Rhif ffôn: 01437 764551
E-bost: planning.support.team@pembrokeshire.gov.uk

**Neu**



84

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ar gyfer safleoedd o fewn ei ardal weinyddolSwyddog Rheoli Datblygu
Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Parc Llanion
Doc Penfro Sir
Benfro SA72 6DY
Rhif ffôn: 01646 624800
E-bost: dc@pembrokeshirecoast.org.uk

**Adran Diogelu'r Cyhoedd** Cyngor
Sir Penfro Neuadd y Sir
Hwlffordd Sir
Benfro SA61
1TP
Rhif ffôn: 01437 764551
E-bost: publicprotection@pembrokeshire.gov.uk

**Heddlu Dyfed-Powys**
Swyddog Trwyddedu
Pencadlys Heddlu
Rhanbarthol Bryn Myrddin
Hwlffordd Sir
Benfro SA61
1PT
Rhif ffôn: 101
E-bost: PembsLicensing@dyfed-powys.police.uk

**Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru**
Rheolwr Diogelwch Tân
Busnes Pencadlys yr Ardal
Reoli Bryn Myrddin
Hwlffordd Sir
Benfro SA61
1PG
Rhif ffôn: 0370 6060699
E-bost: bfspembroke@mawwfire.gov.uk

**Cydlynydd Amddiffyn Plant**
Rheolwr Diogelu Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd Sir
Benfro SA61
1TP
Rhif ffôn: 01437 764551
E-bost: enquiries@pembrokeshire.gov.uk

**Dylai ceiswyr am drwyddedau mewn perthynas â llongau gysylltu â'r awdurdod trwyddedu i gael gwybodaeth ychwanegol.**


85


Fishguard & Goodwick
Goodwick
Fishguard North East
Fishguard North West
Haverfordwest
Haverfordwest: Garth
Haverfordwest: Prendergast
Haverfordwest: Castle
Haverfordwest: Portfield
Haverfordwest: Priory
Pembroke & Pembroke Dock
Neyland: West
Neyland: East
Pembroke Dock: Llanion
Pembroke Dock: Market
Pembroke Dock: Central
Pembroke Dock: Pennar
Pembroke: St Mary North
Pembroke: Monkton
Pembroke: St Mary South
Pembroke: St Michael
St Dogmael's
Cilgerran
Newport
Crymych
Clydau
Scleddau
Llanrhian
Dinas Cross
St David's
Solva
Letterston
Wiston
Maenclochog
Camrose
Rudbaxton
Narberth Urban
Lampeter Velfrey
Martletwy
Merlin's Bridge
The Havens
Llangwm
Narberth Rural
Johnston
St Ishmael's
Kilgetty / Begelly
Amroth
Burton
East Williamston
Lamphey
Carew
Penally
Manorbier
Hundleton
PEMBROKESHIRE COAST NATIONAL PARK
ST BRIDES BAY
CARMARTHEN BAY
Tenby & Saundersfoot
Saundersfoot
Tenby: North
Tenby: South
Milford Haven & Neyland
Milford: North
Milford: Hubberston
Milford: West
Milford: Hakin
Milford: Central
Milford: East
MILFORD HAVEN / ABERDAUGLEDDAU